

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynnig: Creu ysgol ‘pob oed’ 3 – 19 ar Gampws Garth Olwg, Gartholwg

1. Diben yr Adroddiad Ymgynghori

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, dogfen statudol 006/2013. Diben yr adroddiad yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng 2 Hydref 2017 a 26 Ionawr 2018 rhwng yr holl randdeiliaid a'r cyfranogion a restrir isod.

2. Gyda phwy y gwnaethom ymgynghori?

Anfonwyd copi o ddogfen ymgynghori a oedd yn amlinellu ac esbonio ein cynnig yn llawn at y rhanddeiliaid canlynol. Cyhoeddwyd y ddogfen ar wefan y Cyngor hefyd, yn www.rctcbc.gov.uk/schoolconsultations

- Cyrff Llywodraethol, rhieni, gofalwyr a staff YGG Garth Olwg ac YG Garth Olwg.
- Cyrff Llywodraethol, rhieni, gofalwyr a staff YGG Castellau, YGG Evan James, YGG Pont Siôn Norton, Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn (iaith ddeuol), Ysgol Llanhari, Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ac Ysgol Gyfun Rhydywaun
- Cyrff Llywodraethol eraill ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos
- Awdurdodau Esgobaethol Yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig
- Corff Llywodraethol Coleg Y Cymoedd
- Corff Llywodraethol Prifysgol De Cymru
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau Cynulliad ar gyfer yr holl etholaethau ac ardaloedd rhanbarthol sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Undebau llafur staff addysgu a staff cymorth
- Consortïwm Addysg Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Partneriaeth y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Drefniadaeth Deddwyrain Cymru
- Partneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf
- Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdre a Chyngor Cymuned Llantrisant
- Awdurdodau lleol cyfagos
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Comisiynydd y Gymraeg
- Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg
- Aelodau Seneddol ar gyfer y Rhondda, Pontypridd, Ogwr a Chwm Cynon
- Estyn

Anfonwyd copïau i'r holl awdurdodau lleol sy'n rhannu ffin â Rhondda Cynon Taf.

3. Y Cynnig

Y cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad yw cau Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg a'u disodli ag ysgol newydd, pob oed, 3 – 19 cyfrwng Cymraeg ar y campws presennol, gan ddefnyddio'r safle presennol.

Mae manylion am y cynnig a'r rhesymeg y tu ôl iddo wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori a rannwyd ymhlith yr holl randdeiliaid a restrir dros y dudalen sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

4. Y Broses Ymgynghori

Anfonwyd copïau papur neu electronig o'n dogfennau ymgynghori at yr holl randdeiliaid a nodir yn Adran 2 dros y dudalen. Trefnwyd y cyfarfodydd canlynol hefyd:

Ysgol sydd wedi'i Grŵp	Amser/Dyddiad	Lleoliad
YGG Garth Olwg	Cyfarfod Corff Llywodraethol a Staff Dydd Mawrth 7 Tachwedd am 3:45pm	YGG Garth Olwg
YG Garth Olwg	Cyfarfod Corff Llywodraethol a Staff Dydd Llun 6 Tachwedd am 3:45pm	YG Garth Olwg
YGG Garth Olwg	Cyngor Ysgol Dydd Llun 6 Tachwedd am 1:45pm	YGG Garth Olwg
YG Garth Olwg	Cyngor Ysgol Dydd Llun 6 Tachwedd am 2:25pm	YG Garth Olwg
Y ddwy ysgol ac aelodau o'r gymuned leol	Rhieni a sesiwn galw i mewn ac arddangosfa i rieni a'r cyhoedd Dydd Llun 4 Rhagfyr am 3:30pm	YG Garth Olwg

Gwnaed nodiadau manwl o'r cyfarfodydd uchod, ac maent ynghlwm yn Atodiad 2. Mae'r nodiadau hyn yn rhoi manylion am yr holl gwestiynau a godwyd, sylwadau a datganiadau a wnaed, a rhoddwyd ymatebion lle bo'n briodol.

Cynhaliwyd noson agored/arddangosfa yn y Ganolfan Dysgu Gydol Oes ar Gampws Garth Olwg ar 4 Rhagfyr 2017, a diben hyn oedd darparu rhagor o wybodaeth am y cynnig, ateb unrhyw gwestiynau a rhoi cyfle i rieni yn arbennig ofyn cwestiynau. Roedd swyddogion o'r Is-adran Addysg a Dysgu Gydol Oes yn bresennol. Mynychodd 15 o bobl y digwyddiad hwn, a oedd yn cynnwys llywodraethwyr ysgol a rhieni.

5. Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mae ymatebion i'r materion a godwyd yn y cyfarfodydd a amlinellir uchod, fel y nodir, wedi'u crynhoi yn nodiadau'r cyfarfodydd sydd ynghlwm fel Atodiad 2. Mae crynodebau o'r holiaduron a ddaeth i law (26 i gyd) a sylwadau a bostiwyd ar fwrdd at y diben hwn yn y noson agored hefyd wedi'u hamgáu fel rhan o'r Atodiad hwn. Cafwyd ymatebion ysgrifenedig gan y canlynol hefyd:

- Cyrff llywodraethol YG Garth Olwg (wedi'u crynhoi ar ymateb i'r holiadur) ac YGG Garth Olwg
- 12 rhieni disgyblion, YGG Garth Olwg
- 1 rhiant disgybl mewn Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg gyfagos
- 1 rhiant disgybl mewn Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg gyfagos
- Pennaeth Ysgol Gynradd gysylltiedig
- Corff llywodraethol Ysgol Gynradd gysylltiedig
- Cyngor Cymuned Llantrisant
- Undeb Ilafur UCAC

Nid oedd unrhyw un o'r gohebwyr uchod yn gryf o blaid y cynnig.

Mae'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gyda'n hymatebion iddynt, yn cynnwys:

- **Pryder ynghylch rhoi plant o oedran ysgol gynradd yn yr un adeilad â disgyblion o oedran ysgol uwchradd.**

Os cytunir ar y cynnig hwn, byddwn yn asesu'r safle sydd ar gael yn yr adeilad uwchradd ac yn edrych ar addasu'r ystafelloedd dosbarth, fel eu bod yn addas ar gyfer plant iau, gan roi unrhyw fesurau ychwanegol ar waith ar yr un pryd i ddiogelu anghenion plant iau y gallir eu hystyried yn angenrheidiol. Rhaid nodi hefyd fod dwy ystafell ddosbarth yn yr adeilad uwchradd presennol eisoes yn cael eu defnyddio gan ddisgyblion oedran cynradd, ac nid oes unrhyw pryderon yn cael eu codi. Bydd disgyblion iau yn parhau i gael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion oedran uwchradd, yn unol â'r drefn bresennol.

- **Pryder ynghylch y diffyg uwch arweinyddiaeth ar gyfer yr ysgol gynradd**

Gan mai cynnig yn unig yw hwn, nid oes unrhyw waith ynglŷn â strwythur staffio'r ysgol pob oed newydd wedi cael ei wneud ac mae hyn yn cynnwys penodi Pennaeth.

Mae'n bwysig nodi na fydd yr ysgolion yn ysgolion cynradd ac uwchradd ar wahân mwyach; byddant yn un ysgol 'pob oed' gyda thîm arweinyddiaeth a strwythur staffio newydd i adlewyrchu hyn.

- **Bydd staff yn colli eu swyddi**

Nid yw'r strwythur staffio ar gyfer yr ysgol newydd wedi cael ei lunio eto, ond, ar yr amod fod niferoedd y disgyblion yn cael eu cynnal, nid oes unrhyw beth i awgrymu y bydd angen llai o staff yn yr ysgol 'pob oed'.

- **Nid oes lle dros ben yn yr adeilad uwchradd. Bydd yr ysgol yn orlawn, a bydd perygl i iechyd a diogelwch**

Mae hyn yn anghywir am fod gan yr ysgol uwchradd bresennol dros 300 o leoedd dros ben ar hyn o bryd; mae hyn yn ôl cyfrifiad capasiti Llywodraeth Cymru a'r data cyhoeddedig ynghylch niferoedd ar y gofrestr. Fel y nodwyd uchod, gwneir unrhyw waith adeiladu a allai fod yn angenrheidiol i wella cyfleusterau ar gyfer plant iau ac i sicrhau bod diogelu yn cael y flaenoriaeth bennaf.

- **Beth fydd yn digwydd i'r ysgolion cynradd cysylltiedig eraill y bydd eu disgyblion yn ymuno â'r ysgol newydd ym Mlwyddyn 7?**

Mae prosesau pontio gwell a gwella cysylltiadau rhwng pob ysgol yn y clwstwr yn bwysig iawn. Bydd angen i'r gwaith hwn gael ei arwain gan yr ysgol 'pob oed', ond bydd unrhyw gyngor neu gymorth sydd ei angen i gynorthwyo'r ysgol newydd yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol.

- **Diffyg gweledigaeth ac uchelgais strategol ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg a dim ymrwymiad i gynyddu darpariaeth**

Un o'r prif resymau dros ystyried y cynnig hwn yw'r angen amlwg i ddarparu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn nalgylch Garth Olwg, yr ydym wedi cydnabod a dogfennu tystiolaeth o alw amdanynt. Caiff disgyblion oedran cynradd eu haddysgu eisoes, yn llwyddiannus, yn adeilad yr ysgol uwchradd yng Ngarth Olwg ac mae'r cynnig hwn yn syml yn ceisio defnyddio'r lleoedd dros ben sy'n bodoli yn yr ysgol uwchradd i greu'r lleoedd cynradd ychwanegol fydd eu hangen yn y dalgylch hwn. Byddwn yn monitro tueddiadau a cheisiadau derbyn yn barhaus ar draws y Fwrdeistref Sirol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg (ac ar gyfer pob sector ysgol yn gyffredinol) a byddwn yn cymryd camau priodol i ehangu darpariaeth mewn unrhyw ardaloedd ble mae tystiolaeth ddogfennol o alw cynyddol oddi mewn i ddalgylch, na ellir ei fodloni gan ddarpariaeth ysgolion presennol.

- **Nid yw hyn ddim mwy nag ymarferiad arbed costau**

Mae'r arbedion y byddwch yn eu gwneud wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori; maent yn cynrychioli 1% yn unig o'r cyllidebau ysgolion cyfunol presennol. Nid yw'r

cynnig hwn ynglŷn ag arbed arian ond gwella cyfleoedd addysgol. Cydnabyddir bod gan y ddwy ysgol safonau cyflawniad uchel ar hyn o bryd, ac rydym am i'r rhain gael eu cynnal o leiaf, os nad eu gwella.

- **Pryder ynglŷn â'r dyddiad gweithredu arfaethedig, sef mis Medi 2018; ni fydd hyn yn gadael digon o amser i benodi uwch arweinwyr a chytuno ar strwythur staffio newydd a'i roi ar waith.**

Rydym yn nodi'r sylwadau hyn ac yn cytuno â nhw; o ganlyniad, diwygiwyd y dyddiad gweithredu arfaethedig i fis Medi 2019. Anfonwyd gwybodaeth ychwanegol at yr holl ymgynghoreion am y newid arfaethedig hwn ac estynnwyd y cyfnod ymgynghori gan fis er mwyn gallu derbyn rhagor o ymatebion ar y mater penodol hwn.

Barn Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) am Rinweddau Cyffredinol y Cynnig.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn ynglŷn â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall, fel data gan Lywodraeth Cymru a safbwyntiau'r Consortiwm Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion o fewn y cynnig.

Cyflwyniad

Cynnig ymgynghori gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw hwn. Mae'r cynnig fel a ganlyn:

- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg.
- Cau Ysgol Gyfun Garth Olwg.
- Agor ysgol cyfrwng Cymraeg pob oed 3 – 19 newydd yn eu lle ar y campws presennol, gan ddefnyddio'r adeiladau presennol.

Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth, o leiaf.

Mae'r cynigiwr wedi darparu cynnig cynhwysfawr, ac mae wedi ymchwilio i lwyddiannau ysgolion tebyg, fel yr ysgol beilot 3-19 yn Llanbedr Pont Steffan ac Ysgol Llanhari yn Rhondda Cynon Taf. Mae gan yr awdurdod lleol brofiad llwyddiannus diweddar o reoli newid sefydliadol mewn pedair ysgol arall.

Disgrifiad a manteision

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg, ac agor un ysgol 3-19 cyfrwng Cymraeg newydd a fydd yn defnyddio safle presennol y ddwy ysgol, sydd eisoes wedi'u cydleoeli ar Gampws Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg glir ar gyfer y cynnig.

Mae'r cynigiwr wedi nodi manteision ac anfanteision yn deg o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yr effaith ar rieni y byddai'n well ganddynt anfon eu plentyn i ddwy ysgol yn hytrach nag un, ac mae hefyd wedi ystyried y posibilrwydd y gallai staff fod yn bryderus ynglŷn â'u swyddi. Maent wedi nodi'r camau i reoli risg y ddwy anfantais a nodwyd. Mae'r cynigiwr wedi ystyried pedwar dewis posibl gyda rhestr gynhwysfawr o fanteision ac anfanteision ar gyfer pob un.

Nid yw'r cynigiwr yn rhagweld unrhyw newidiadau mewn darpariaeth ar gyfer cludiant gan na fydd y naill ysgol na'r llall yn newid safle. Maent yn bwriadu cadw at yr un ddarpariaeth i gludo dysgwyr i'r ysgol am ddim, sydd y tu hwnt i'r disgwyliad statudol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried y niferoedd yn y ddwy ysgol dros gyfnod o bum mlynedd, ac mae wedi rhagweld niferoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau yn y niferoedd hanesyddol yn cynnwys disgyblion meithrin, er bod y ffigurau sy'n rhagweld y niferoedd ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cynnwys disgyblion meithrin. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cymharu a dadansoddi'r wybodaeth a ddarperir.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar y Gymraeg. Mae'n rhesymol disgwyl na fydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth Gymraeg yn yr awdurdod lleol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth; er enghraifft, maent wedi nodi cyfle i'r pennaeth ddosbarthu tasgau arwain allweddol i fwy o staff ar draws y cyfnodau addysgu, ac i roi cyfle i staff addysgu a staff cymorth gael profiad o gyfrifoldebau ehangach.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i'r effaith debygol ar y cwricwlwm, gan gynnwys yr hyblygrwydd i ddarparu cwricwlwm priodol ar gyfer unigolion, beth bynnag fo'u hoedran. Yn ychwanegol, maent wedi rhoi ystyriaeth briodol i fanteision arddull addysgu a dysgu gydlynol a chyson, a system gyffredin ar gyfer asesu a chofnodi. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys ystyriaeth deg i addysg disgyblion ag anghenion ychwanegol.

Mae'r cynnig wedi rhoi ystyriaeth bwrpasol i adroddiadau arolygiadau diweddaraf Estyn ar y ddwy ysgol, yn ogystal ag argymhellion Estyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

yn 2012. Mae adroddiadau Estyn ar y ddwy ysgol wedi barnu bod rhagolygon gwella'r ysgolion yn dda. Maent wedi ystyried categorïau presennol y ddwy ysgol. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg yn y categori 'gwyrdd', sy'n golygu ei bod yn dangos gwydnwch ar bob lefel ac fe gaiff ei herio i symud ymlaen tuag at ragoriaeth neu gynnal rhagoriaeth. Mae Ysgol Gyfun Garth Olwg yn y categori 'melyn', sy'n golygu bod ganddi dystiolaeth o weithgareddau hunanwella, sydd wedi cael effaith ar wella deilliannau disgyblion.

Mae'r cynigiwr wedi darparu prif ddata Ysgol Gyfun Garth Olwg ar gyfer 2016 a 2017 ar ddiwedd cyfnod allweddol 5 a chyfnod allweddol 4, ond nid yw wedi nodi unrhyw ddata ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 2 na'r Cyfnod Sylfaen. Nid yw'r data a ddarparwyd wedi'i feincnodi er mwyn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

6. Casgliad

Yr argymhelliad a gytunwyd mewn cyfarfod o Gabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2018 yw y dylid cyhoeddi hysbysiad statudol, i fwrw ymlaen â'r cynnig hwn. Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ddydd Gwener, 2 Mawrth 2018 a bydd yn caniatáu ar gyfer cyfnod o 28 diwrnod, sy'n cynnwys 15 diwrnod ysgol (tan 5pm ar 29 Mawrth 2018). Yn ystod y cyfnod hwn, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion. Ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, bydd Adroddiad Gwrthwynebu'n cael ei gasglu ynghyd, yn crynhoi unrhyw wrthwynebiadau sy'n dod i law. Bydd yr Adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn 7 diwrnod i bennu'r cynnig. Bydd canlyniad y rhan hon o'r broses yn cael ei ystyried gan y Cabinet eto yn eu cyfarfod a fydd yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2018, er mwyn gwneud penderfyniad terfynol am y cynnig.



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

**YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I GREU YSGOL
NEWYDD, POB OED 3 – 19 AR GAMPWS GARTH
OLWG, PENTRE'R EGLWYS**

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
Pwy fyddwn ni'n ymgynghori â nhw?	3
Beth fydd y broses ymgynghori yn ei chynnwys?	4
Beth mae'n rhaid i chi ei ystyried?	4
Sut gallwch fynegi eich barn?	5
2. Cefndir y cynnig	6
Beth yw'r sail ar gyfer y cynnig hwn?	6
Beth yw'r achos addysgol ar gyfer y cynnig?	7
Beth yw'r achos addysgol ar gyfer creu ysgolion 3-19 oed?	8
A fydd disgyblion cynradd ac uwchradd yn gorfod rhannu cyfleusterau ac adnoddau?	9
Beth fydd yr effaith ar yr ysgolion cynradd “partner” eraill yn y gymuned?	10
Beth yw effaith debygol y cynigion ar y disgyblion ysgol?	10
Beth yw effaith debygol y cynnig ar staff yr ysgolion?	11
Beth yw anfanteision y cynnig hwn?	11
Pa opsiynau amgen a ystyriwyd?	12
3. Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg	14
4. Trefniadau Derbyn	14
5. Tir ac Adeiladau	15
6. Adeiladau ac ystafelloedd	15
7. Gwybodaeth am yr ysgolion	15

Rhagamcanion disgyblion	16
Cyflwr yr ysgolion presennol	16
Ansawdd a safonau	16
Deilliannau addysgol	17
Presenoldeb	19
Gwybodaeth ariannol	19
8. Beth yw'r broses statudol o gau ysgolion ac agor ysgol newydd?	19
<u>Atodiadau</u>	
1. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg	21
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	22

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dymuno ceisio barn amrywiaeth eang o randdeiliaid ar gynnig i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg a rhoi ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd pob oed, 3 – 19 yn eu lle ar y campws presennol, gan ddefnyddio'r adeiladau presennol.

Pwy fyddwn ni'n ymgynghori â nhw?

Rydym yn ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff Llywodraethu, rhieni, gofalmwr a staff YGG Garth Olwg ac YG Garth Olwg.
- Cyrff Llywodraethu, rhieni, gofalmwr a staff YGG Castellau, YGG Evan James, YGG Pont Siôn Norton, Ysgol Gynradd Heolycelyn (dwy iaith), Ysgol Llanhari, Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ac Ysgol Gyfun Rhydywaun
- Cyrff Llywodraethu eraill ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos
- Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a Chatholig
- Corff Llywodraethu Coleg y Cymoedd
- Corff Llywodraethu Prifysgol De Cymru
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau Cynulliad pob etholaeth a rhanbarth sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf
- Aelodau Seneddol Rhondda, Pontypridd, Ogwr a Chwm Cynon
- Estyn
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Undebau llafur staff addysgu a staff cymorth
- Consortiwm Addysg Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru
- Y Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
- Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref a Chyngor Cymuned Llantrisant
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Comisiynydd y Gymraeg
- Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg

Beth fydd y broses ymgynghori yn ei chynnwys?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 2 Hydref 2017 ac yn cael ei gwblhau am 5pm ar 29 Rhagfyr 2017. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a chaiff adroddiad ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2018. Caiff adroddiad ymgynghori ei baratoi a bydd ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, gellir cael copïau ar gais o'r cyfeiriad a nodir ar dudalen 5 o'r ddogfen hon.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad a bydd yn ystyried, yn seiliedig ar yr adborth, a ddylai fwrw ymlaen gyda'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu beidio â bwrw ymlaen gyda'r cynnig. Os bydd y Cabinet yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen gyda'r cynnig, dyna fydd diwedd y cynnig hwn ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen gyda'r cynnig bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan ddarparu cyfnod hysbysu 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, **rhaid** i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig.

Os oes gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu sy'n rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddynt o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Bydd yr adroddiad hwn hefyd ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a gellir cael copïau ar gais o'r cyfeiriad a nodir ar dudalen 5 o'r ddogfen hon.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, bydd y cynnig yn cael ei weithredu yn unol â'r dyddiad a roddir yn yr hysbysiad statudol neu unrhyw ddyddiad a gaiff ei addasu wedyn. Yn achos y cynnig hwn y dyddiadau gweithredu yw 31 Awst 2018 ar gyfer cau'r ysgolion ac 1 Medi 2018 ar gyfer agor yr ysgol newydd.

Beth mae'n rhaid i chi ei ystyried?

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yn nodi'r rhesymeg ar gyfer y cynnig arfaethedig i greu ysgol pob oed, 3 – 19 yng Ngarth Olwg. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon a chlywed eich barn o ran a ydych yn cefnogi'r cynigion ai peidio.

Er mwyn cyflawni hyn bydd rhaid i ni gau YGG Garth Olwg ac YG Garth Olwg ac agor ysgol Cyfrwng Cymraeg newydd 3-19 oed a fydd yn defnyddio eiddo a safle presennol yr ysgolion presennol, sydd wedi'u cyd-leoli ar Gampws Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, Pentre'r Eglwys, Pontypridd.

Sut gallwch fynegi eich barn?

Caiff digwyddiadau ymgynghori eu cynnal, ac mae croeso i chi ddod i'r cyfarfod priodol.

Yr ysgol yr effeithir arni	Grŵp	Amser/Dyddiad	Lleoliad
YGG Garth Olwg	Cyfarfod Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Mawrth 7 Tachwedd am 3.45pm	YGG Garth Olwg
YG Garth Olwg	Cyfarfod Corff Llywodraethu a Staff	Dydd Llun 6 Tachwedd am 3.45pm	YG Garth Olwg
YGG Garth Olwg	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun 6 Tachwedd am 1.45pm	YGG Garth Olwg
YG Garth Olwg	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun 6 Tachwedd am 2.25pm	YG Garth Olwg
Y ddwy ysgol ac aelodau o'r gymuned leol	Sesiwn galw heibio ac arddangosfa i rieni a'r cyhoedd	Dydd Llun 4 Rhagfyr am 3.30pm	YG Garth Olwg

Atodir holiaduron ymgynghori. Yn ogystal, bydd y rhain ar gael yn y sesiwn galw heibio a nodir uchod
ac ar wefan y Cyngor yn
<http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx>

Mae croeso i chi hefyd anfon eich barn ac unrhyw gwestiynau sydd gennych at:

Y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} ganrif

Tŷ Trevithick

Abercynon CF45 4UQ Ffôn (01443) 744227 Ffacs (01443) 744201

E-bost schoolplanning@rctcbc.gov.uk

Dylai'r ohebiaeth gael ei derbyn erbyn 5pm ddydd Gwener 29 Rhagfyr 2017 fan bellaf.

Sylwer na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y gellir anfon gwrthwynebiadau.

2. Cefndir y cynnig

Beth yw'r sail ar gyfer y cynnig hwn?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Estyn wedi mireinio ei ddull o arolygu ysgolion ac awdurdodau lleol ac mae wedi codi'r safonau o ran yr hyn a ystyrir ganddo yn ddarpariaeth dda neu ragorol. At hynny, mae Estyn wedi cymryd safbwynt cadarn iawn ar awdurdodau lleol yng Nghymru â gwendidau mewn meysydd allweddol fel llywodraethu corfforaethol, safonau addysgol, lefelau presenoldeb, lleoedd gwag a diogelu.

Dyma oedd casgliad Estyn ym mis Mawrth 2012 ar ansawdd gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf:

- **Barn Gyffredinol – Digonol** (Mae'r cryfderau'n gorbwyso meysydd i'w gwella);
- **Gallu i Wella – Digonol.**

Yn ogystal gwnaeth Estyn yr argymhellion canlynol i'r Cyngor:

- A1 - codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;
- A2 - gwella cyfraddau presenoldeb ym mhob ysgol;
- A3 - gwella arfarniadau a dadansoddiadau data ar draws meysydd gwasanaeth a phartneriaethau i ysgogi gwelliannau mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr;
- A4 - defnyddio'r pwerau llawn sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion;
- A5 - lleihau nifer y lleoedd dros ben; ac
- A6 - gwella trylwyrdd a lefel y craffu a'r her ar draws yr holl wasanaethau a phartneriaethau.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar y chwe argymhelliad hyn, ac yn enwedig argymhellion 1, 2 a 5, a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gyflawniad disgyblion yn ein hysgolion. O ganlyniad, mae ysgolion, wrth eu cymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim yn y trydydd a'r pedwerydd chwarterl yn destun her, craffu a chymorth sylweddol. Lle nad oes fawr o dystiolaeth o gynnydd sylweddol, mae'r Cyngor yn ymyrryd gan ddefnyddio amrywiaeth o'i bwerau. Un o'r pwerau yw cau ysgolion sydd, dros gyfnod estynedig, yn parhau i danberfformio gan ddarparu addysg i blant nad yw'n ddigon da.

Gwnaeth Estyn hefyd amlygu bod gan y Cyngor y nifer uchaf o leoedd gwag yng Nghymru a bod yn rhaid cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Dilynwyd hyn gan lythyr gan Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2012 a gyfarwyddodd y dylai'r Cyngor gymryd camau gweithredu mewn perthynas â lleoedd gwag neu y byddai Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am ddileu'r lleoedd gwag.

Mae'r Aelodau Etholedig wedi derbyn argymhellion Estyn a chynnal adolygiad o'n darpariaeth ysgol. Mae'r meini prawf rydym wedi eu defnyddio ar gyfer dewis ysgolion i'w hadolygu yn un neu ragor o'r canlynol:

- Lleoedd gwag sydd 25% yn uwch na'r capasiti a gyhoeddwyd;
- Adeiladau sydd y tu hwnt i atgyweirio economaidd/nad ydynt yn addas i'r diben;
- Yn ariannol anymarferol (fel arfer yn sgil gostyngiad sydyn yn nifer y disgyblion);
- Ysgolion yr ystyrir eu bod yn ysgolion 'bach', h.y. ysgolion â 90 o ddisgyblion neu lai;
- Ysgolion babanod ac iau ar wahân sy'n agos at ei gilydd;
- Ysgolion 'wedi'u paru', h.y. lle mae plant yn symud o un o'r ysgolion i'r llall;
- Dosbarthiadau oedran cymysg lle ceir mwy na dau grŵp oedran mewn un dosbarth;
- Ysgolion yr ystyrir eu bod mewn perygl, yn seiliedig ar eu data Cyfnod Allweddol academiaidd ac ansawdd yr arweinyddiaeth, o fodloni meini prawf Estyn fel ysgol y mae angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig arni.

Wrth asesu'r ysgolion yn erbyn y meini prawf a nodwyd uchod - mae'r ddwy ysgol wedi'u lleoli ar yr un campws ac maent wedi'u 'paru' gyda disgyblion yn symud o un ysgol i'r llall (yn amodol ar ddewis rhieni). Hefyd, mae gan YG Garth Olwg fwy na 27% o leoedd gwag wrth gymharu'r nifer ar y gofrestr yn erbyn y capasiti a gyhoeddwyd, sy'n amlwg yn fwy na'r 25% y cyfeirir ato yn y meini prawf uchod. Ac mae angen capasiti ychwanegol ar YGG Garth Olwg i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir.

Mae'r cyfle'n bodoli i ail-gyflunio'r ysgolion cynradd ac uwchradd i greu ysgolion sy'n hyfyw yn addysgol ac yn ariannol ac sy'n gwasanaethu'r cymunedau lleol. Mae'r cynnig hwn yn ceisio cyflawni hyn.

Beth yw'r achos addysgol ar gyfer y cynnig?

Dylai newid trefniadaeth ysgolion gyfeirio at y manteision addysgol y bydd unrhyw newid yn ei gynnig, yn enwedig mewn perthynas â gwelliannau cyffredinol mewn safonau, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, a fyddai fel arfer yn cael effaith fuddiol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

Ym marn y Cyngor, bydd creu ysgolion pob oed 3-19 yn:

- **Gwella deilliannau addysgol:**
 - o Rhoi mwy o gyfle i staff addysgu a chymorth ddatblygu'n broffesiynol;
 - o Galluogi mwy o gyfle i staff symud rhwng cyfnodau allweddol a datblygu arbenigedd ymhellach;
 - o Darparu cwricwlwm mwy priodol a chyfleoedd allgyrsiol ehangach a fydd yn gwella presenoldeb a deilliannau addysgol;

- **Gwella darpariaeth addysgol:**

- o Darparu'r amodau a fydd yn galluogi datblygu cwricwlwm ehangach a mwy amrywiol er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc yr ysgol yn well ac mewn ffyrdd a fydd yn hyfyw ac yn gynaliadwy dros y tymor hwy;
- o Gwella amrywiaeth ac ansawdd y cyfleusterau a'r adnoddau dysgu sydd ar gael er budd yr holl ddisgyblion;
- o Galluogi mwy o barhad cymorth ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed;
- o Galluogi'r potensial ar gyfer arbedion ariannol o ran strwythurau staffio a phrynu gwasanaethau, sy'n cronni i ysgol fwy;
- o Ehangu'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol a thu allan i'r ysgol a'u datblygu mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy dros y tymor hwy;

- **Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth:**

- o Rhoi'r cyfle i'r pennaeth ddosbarthu tasgau arweinyddiaeth allweddol fel amddiffyn plant, llythrennedd, rhifedd, anghenion addysgol arbennig ac ati i fwy o staff ac ar draws cyfnodau addysg;
- o Creu cyfleoedd arweinyddiaeth i staff eraill, ac i eraill arbenigo mewn meysydd allweddol, a fydd yn gwella darpariaeth a deilliannau addysgol;
- o Rhoi mynediad i staff addysgu a chymorth i amrywiaeth ehangach o gyfrifoldebau:
 - Gwell rhagolygon gyrfa;
 - Gwell cydlynw cwricwlwm;
 - Y cyfle i addysgu ar draws ystod oedran ehangach ac ar draws gwahanol gyfnodau;
 - Amrywiaeth mwy o arbenigedd;
 - Gwell cyfleoedd i staff ryngweithio/gydgysylltu.

Beth yw'r achos addysgol ar gyfer creu ysgolion 3-19 oed?

Wrth ddod ag ysgolion at ei gilydd boed drwy uno, ffedereiddio neu glystyru anffurfiol, rhaid mai'r diben yw gwella addysgu a dysgu a deilliannau disgyblion. Gellir crynhoi manteision ysgolion 3-19 oed fel a ganlyn:

- Mae ethos cyffredin yn golygu nad oes yn rhaid i ddisgyblion addasu i ddiwylliant newydd wrth symud ysgol;
- Mae arddulliau cydlynol a chyson o addysgu a dysgu sy'n datblygu drwy'r blynyddoedd yn rhoi sefydlogrwydd i brofiadau dysgu disgyblion;
- System gynhwysfawr a chyffredin ar gyfer asesu, cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion drwy eu haddysg;
- Hyblygrwydd i ddarparu'r cwricwlwm priodol i unigolion beth bynnag fo'u hoedran;
- Mynediad cynyddol disgyblion i amrywiaeth o adeiladau ac ystafelloedd, cyfleusterau ac adnoddau dysgu arbenigol;

- Gall disgyblion ag anghenion ychwanegol gynnal perthnasoedd ag asiantaethau cynorthwyo drwy gydol eu gyrfa ysgol os bydd angen;
- Mae polisi presenoldeb ac ymddygiad cyffredin yn golygu bod arferion yn cael eu sefydlu a gwerthoedd yn cael eu deall o oedran cynnar;
- Gall rhieni barhau i gymryd mwy o ran yn addysg eu plant am nad oes rhaid iddynt sefydlu perthnasoedd newydd gyda staff.

Cryfder addysg pob oed yw parhad profiad addysgol sy'n negyddu'r "gostyngiadau" o ran perfformiad disgyblion wrth iddynt bontio. Mae ysgol 3-19 oed yn rhoi'r cyfle i ddarparu "pont" rhwng cyfnodau allweddol er mwyn creu pontio di-dor i ddisgyblion o ran cynllunio cwricwlwm, dysgu ac addysgu. Gall ganiatáu am rannu sylweddol o ran arbenigedd pwnc ac addysgeg cynradd yn enwedig ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3.

Mae astudiaeth o'r ysgol beilot 3-19 oed yn Llanbedr Pont Steffan wedi tynnu sylw at y cwmpas a ddarperir gan ysgol pob oed ar gyfer sefydlu tîm unedig sengl o staff cymorth a chynorthwywyr cymorth dysgu arbenigol sy'n gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau teuluoedd. Mae gan hyn y potensial i wella ymhellach y safonau gofal uchel a ddarperir i ddisgyblion a chanddynt amrywiaeth eang o anawsterau dysgu ychwanegol, anghenion cymdeithasol ac emosiynol. I lawer o blant ag anghenion penodol, mae'r continwmm gofal a chymorth a ddarperir gan yr ysgol yn bwysicach nag oedran penodol y disgybl dan sylw a cheir manteision amlwg o ran ymestyn y perthnasoedd rhwng athrawon ac oedolion eraill â rolau cymorth a disgyblion unigol ar draws y cyfnod pontio.

Mantais bwysig arall addysg i bob oed yw gallu cyflawni mwy o effeithiolrwydd drwy rannu adnoddau, a gallu targedu'r adnoddau hyn, boed hwy'n adnoddau ariannol, corfforol neu ddynol, at feysydd allweddol o wella ysgol. Ymhlith rhai o'r manteision a nodwyd mae:

- Darparu addysgu arbenigol yn CA2 neu ymestyn rhaglenni llythrennedd a rhifedd i CA3;
- Mynediad i ddisgyblion y cyfnod cynradd at gyfleusterau'r cyfnod uwchradd;
- Darparu cwmpas ar gyfer rhaglenni cyflymu;
- Datblygu Proffesiynol ar y Cyd;
- Cyfeirio adnoddau at ymyrryd yn gynnar;
- Cynllunio cwricwlwm ar y cyd;
- Rhannu offer, caledwedd, adeiladau ac ystafelloedd;
- Cynyddu'r ystod a'r gallu ac adnoddau ar gyfer dysgu allgyrsiol/ar ôl ysgol;
- Creu penodiadau gweinyddol cyffredin.

A fydd disgyblion cynradd ac uwchradd yn gorfod rhannu cyfleusterau ac adnoddau?

Mae angen pwysleisio na fyddai ysgol 3-19 oed yn arwain at blant ifanc yn rhannu meysydd chwarae neu amseroedd egwyl â disgyblion llawer yn hŷn. Ceir eisoes brotocolau diogelu llym sy'n cael eu dilyn pan fydd unrhyw ddisgyblion oed cynradd yn ymweld â safle uwchradd (cerdded mewn llinell

gydag athrawon neu gynorthwyyr sy'n oedolion yn y blaen a'r cefn). Ar gampws Garth Olwg, mae disgyblion oed Cynradd hynaf (Blwyddyn 6) eisoes yn adeilad yr ysgol Uwchradd, a dyma fu'r achos am sawl blwyddyn ac mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n dda, heb unrhyw anfantaision a ganfyddir. Mae trefniadau diogelu eraill yn cynnwys mynedfa ar wahân i'r disgyblion oed cynradd i'r adeilad ysgol Uwchradd, yn ogystal â thoiledau ar wahân i ddisgyblion oed cynradd.

Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion oedran cynradd yn derbyn y rhan fwyaf o'u gwersi yn adeilad arbenigol yr ysgol gynradd. Serch hynny, bydd yr holl ddisgyblion yn cael y cyfle i gael eu haddysgu yn yr ysgol uwchradd i ddatblygu eu sgiliau cwricwlaidd drwy'r defnydd o gyfleusterau arbenigol e.e. gwyddoniaeth a thechnoleg. Yn ogystal, bydd disgyblion y cyfnod uwchradd yn cael cyfleoedd dysgu yn y cyfnod cynradd yn enwedig yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau galwedigaethol sy'n gysylltiedig â gofal a bodloni rhai o ofynion Bagloriaeth Cymru. Bydd y cyfleoedd dysgu hyn hefyd yn darparu cymorth i staff y cyfnod sylfaenol drwy weithgareddau o'r fath, er enghraifft disgyblion blwyddyn 12 a 13 yn cynorthwyo disgyblion yr ysgol gynradd gyda'u darllen. Dyma'r achos yn Ysgol Llanhari, yr ysgol 3-19 gyntaf yn Rhondda Cynon Taf.

Beth fydd yr effaith ar yr ysgolion cynradd “partner” eraill yn y gymuned?

Bydd ysgolion cynradd partner/cysylltiedig eraill ym mhob cymuned hefyd yn cael budd o'r cynnig. Yn Llanbedr Pont Steffan, lle ceir trefniant tebyg, mae'r gwerthusiad peilot wedi tynnu sylw ar y ffaith bod yr ysgolion cynradd hyn wedi ceisio cryfhau eu perthynas a'u trefniadau pontio gyda chyfnod cynradd ac uwchradd yr ysgol 3-19 oed, er mwyn i'r disgyblion gael budd llawn o'r datblygiadau pob oed yn y dyfodol a sicrhau na fyddant o dan anfantais pan fyddant yn ymuno â'r ysgol newydd ym Mlwyddyn 7.

Beth yw effaith debygol y cynigion ar y disgyblion ysgol?

Gan fod y ddwy ysgol eisoes yn rhannu campws dysgu ac wedi'u lleoli ychydig fetrau oddi wrth ei gilydd, ni ddylai disgyblion ysgol sylwi ar lawer o newid o'u ddarpariaeth bresennol. Y prif newidiadau fydd gwella pontio rhwng cyfnodau addysgol a gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth addysgol, a dylai hyn gael effaith sylweddol ar berfformiad addysgol y disgyblion.

Gan nad yw'r naill ysgol yn adleoli i safle newydd, ni fydd unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth bresennol o ran cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a bydd polisi'r Cyngor o ran cludiant am ddim i'r ysgol yn parhau. Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr i'w hysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i “bellter cerdded” diogel i'r ysgol honno. Mae'r term ysgol addas yn berthnasol i ddalgylch yr ysgol brif ffrwd neu ysgol/ddosbarth arbennig Cymraeg, Saesneg neu iaith ddeuol fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn ymwneud â “phellter cerdded” diogel wedi'i diffinio fel dwy filltir ar gyfer dysgwyr oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg gynradd a thair milltir i ddysgwyr oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn addysg uwchradd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi arfer y pwerau disgrisiwn a roddwyd iddo o dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i wneud darpariaeth fwy hael i ddysgwyr fel y nodir isod:

- Mae'r maen prawf cymhwyster ar gyfer pellter cerdded i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi'i osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur;
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i blant sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau tymor yr ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau tymor yr ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r maen prawf cymhwyster ar gyfer pellter cerdded i ddysgwyr sy'n derbyn addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi'i osod ar 2 filltir, yn hytrach na 3 milltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Darperir cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 oed sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystera 2 filltir ar gyfer dwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd at ddiwedd addysg orfodol fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i bresenoldeb amser llawn yn yr ysgol neu'r coleg sydd agosaf i gartref y dysgwr lle cynigir y cwrs astudio cymeradwy y mae'n dymuno ei ddilyn.
- Darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'w hysgol addas agosaf (fel y nodir uchod) yn unol â'u henwad crefyddol dewisol.
- Mae'r term ysgol addas yn berthnasol i ddalgylch yr ysgol brif ffrwd neu ysgol/ddosbarth arbennig Cymraeg, Saesneg, iaith ddeuol neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir (ffydd) fel y bo'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fynegir mewn saith nod craidd bod pob plentyn a pherson ifanc yn:

1. cael dechrau teg mewn bywyd;
2. derbyn amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd dysgu ac addysgu;
3. mwynhau'r iechyd gorau posib heb gael eu cam-drin, eu herlid na'u hecsbloetio;
4. gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. lleisio eu barn, yn cael eu trin â pharch, ac y cydnabyddir eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
6. cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
7. peidio â bod yn ddifreintiedig oherwydd tlodi.

Rydym o'r farn y bydd y cynnig hwn o fudd i'r plant a fydd yn mynd i'r ysgol pob oed newydd yn unol â'r saith nod craidd a nodwyd uchod.

Beth yw effaith debygol y cynnig ar staff yr ysgolion?

Ar gyfer y newidiadau hyn, bydd y ddwy ysgol sy'n ymwneud â'r cynnig yn cau a chaiff ysgol newydd ei hagor gyda chorff llywodraethu newydd. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo,

bydd angen penodi corff llywodraethu dros dro ar gyfer y cyfnod interim hyd nes y bydd yr ysgol newydd yn agor.

Bydd y corff llywodraethu dros dro yn penodi pennaeth newydd, ac wedyn bydd yn llunio ac yn cynnig y strwythurau arweinyddiaeth, rheoli a staffio ar gyfer yr ysgol newydd. Mae'r Cyngor yn argymhell os caiff y cynnig ei dderbyn yna dylai corff llywodraethu dros dro'r ysgol newydd "glustnodi" ar gyfer recriwtio, yr holl swyddi addysgu a staff cysylltiedig i staff yn yr ysgolion presennol i ddechrau.

Mae gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol sefydledig sy'n rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynghylch rheoli newid sefydliadol, fel y dangosir gan y newidiadau trefniadaeth ysgol diweddar yn Aberdâr, Tonypandy, Porth a Thonyrefail.

Beth yw anafanteision y cynnig hwn?

Wrth ad-drefnu ysgolion bydd peth aflonyddwch ac ansicrwydd yn anochel am gyfnod, er bod profiad yn dangos nad oes rhaid i hyn fod yn ormodol ac nad yw addysg y plant yn dioddef. Mae anafanteision y cynnig a sut y gall y Cyngor a'r ysgol reoli'r risgiau hyn fel a ganlyn:

Anafanteision	Rheoli Risg
Efallai y bydd yn well gan rai rhieni anfon eu plentyn i ddwy ysgol yn hytrach nag un ysgol pob oed. Mae ysgolion 3-19 oed yn gysyniad newydd mewn darpariaeth addysg i lawer o rieni ac efallai y bydd pryderon.	Gallai ffactorau fel apêl campws ysgol modern gyda'r cyfleusterau addysg diweddaraf a chludiant am ddim (lle y bo'n gymwys) fod yn ystyriaethau pwysig i lawer wrth wneud eu dewis. Mae'r cynllun peilot 3-19 oed yn Llanbedr Pont Steffan wedi'i werthuso'n annibynnol ac ystyrir ei fod yn llwyddiant. Mae Ysgol Llanhari yn ysgol 3-19 hefyd ac mae'r adborth gan rieni wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae awdurdodau lleol eraill yn mabwysiadu dull tebyg ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban.
Bydd goblygiadau staffio, er enghraifft, bydd angen un Pennaeth yn unig. Bydd staff yn pryderu am ddiogelwch eu swyddi.	Bydd y corff llywodraethu dros dro, cyn gynted â phosibl, pan fydd y gweithdrefnau statudol wedi'u cwblhau, yn mynd i'r afael â'r materion staffio. Yn ymarferol mae cyrff llywodraethu yn ceisio sicrhau cymaint o barhad â phosibl o ran staffio yn y sefyllfaoedd hyn.

Er gwaethaf yr anafanteision hyn, mae'r Cyngor o'r farn bod manteision addysgol y cynigion yn gwrthbwysu effaith tymor byr y newidiadau ar gyfer disgyblion a rhieni.

Pa opsiynau amgen a ystyriwyd?

Prin iawn yw'r opsiynau amgen y gellid eu hystyried yn yr achos hwn.

Opsiynau	Manteision	Anfanteision
(i) - Cadw'r sefyllfa bresennol	• Dim buddsoddiad cyfalaf yn ofynnol gan y Cyngor; • Dim tarfu ar y disgyblion, y rhieni a'r staff; • Dim effaith ar y cludiant rhwng y cartref a'r ysgol; • Mae gan yr ysgolion draddodiad cryf ac maent yn cael eu cefnogi'n dda yn y cymunedau lleol.	• Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau nifer uchel y lleoedd gwag yn yr ysgol Uwchradd a niferoedd dros y capasiti yn yr ysgol Gynradd, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru; • Pontio ffurfiol rhwng CA2 a CA3 yn ofynnol o hyd.
(ii) – Ffedereiddio'r ddwy ysgol o dan un corff llywodraethu, ond gyda dau bennaeth	• Byddai darpariaeth addysg yn parhau fel y mae ar hyn o bryd; • Cyfleoedd ar gyfer rhannu arbenigedd staff ac arfer da; • Tarfu lleiaf posibl i ddisgyblion, rhieni a staff; • Dim effaith ar y cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.	• Nid yw'n mynd i'r afael â'r angen i leihau nifer uchel y lleoedd gwag yn yr ysgol Uwchradd a niferoedd dros y capasiti yn yr ysgol Gynradd, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru; • Pontio ffurfiol rhwng CA2 a CA3 yn ofynnol o hyd. • Ni fydd arbedion ariannol yn cael eu cyflawni
(iii) Creu ysgol pob oed 3 – 16 oed ar y campws presennol, gyda darpariaeth y 6 ^{ed} dosbarth yn cael ei ddarparu mewn man eraill	• Dileu rhai lleoedd gwag yn yr ysgol Uwchradd, gan ddefnyddio'r lle capasiti dros ben i ddarparu lleoedd Cynradd Cyfrwng Cymraeg ychwanegol, y mae tystiolaeth o alw cynyddol amdanynt; • Galluogi'r disgyblion cynradd ac uwchradd i rannu cyfleusterau arbenigol, fel cyfleusterau chwaraeon; • Gwellu'r pontio rhwng CA2 a 3; • Yn rhoi gwell cyfle i'r ysgol ddarparu cwricwlwm priodol i bob	• Mae ysgolion 'pob oed' yn gysyniad newydd yn Rhondda Cynon Taf, a bydd gan rieni bryderon ynghylch yr hyn sy'n fodel cymharol newydd a heb ei brofi o ddarpariaeth addysg • Bydd yn rhaid i ddisgyblion deithio pellteroedd hir i gael mynediad i ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg ôl-16, naill ai yn YG y Cymer neu Ysgol Llanhari (sydd â 6^{ed} dosbarth bach iawn). • Bydd dileu'r 6^{ed} dosbarth yn creu hyd yn oed mwy o leoedd dros

Opsiynau	Manteision	Anfanteision
	disgybl; • Cyflawni arbedion refeniw y gellir eu hailfuddsoddi yn y system ysgol	ben yng Ngarth Olwg
(iv) – Y Model sy'n cael ei Gynnig – ysgol pob oed 3 – 19 ar y campws presennol	- Dileu lleoedd gwag yn yr ysgol Uwchradd, gan ddefnyddio'r capasiti dros ben i ddarparu lleoedd Cynradd Cyfrwng Cymraeg ychwanegol, y mae tystiolaeth o alw cynyddol amdanynt; - Galluogi'r disgyblion cynradd ac uwchradd i rannu cyfleusterau arbenigol, fel cyfleusterau chwaraeon; - Gwella'r pontio rhwng CA2 a 3; - Yn rhoi gwell cyfle i'r ysgol ddarparu cwricwlwm priodol i bob disgybl; - Cyflawni arbedion refeniw y gellir eu hailfuddsoddi yn y system ysgol	Mae ysgolion 3-19 oed yn gysyniad newydd yn Rhondda Cynon Taf, a bydd gan rieni bryderon ynghylch yr hyn sy'n fodel cymharol newydd a heb ei brofi o ddarpariaeth addysg;

Mae'r opsiynau (i, ii a iii) uchod wedi'u hystyried gan y Cyngor ac maent wedi'u diystyru a'r opsiwn a ffefrir, (iv), yw'r hyn a gynigir yn y ddogfen ymgynghori hon.

3. Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Fel y nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, mae'n ofyniad cyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, Effaith ar y Gymraeg ac Effaith ar Gydraddoldeb. Atodir yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Atodiad 1. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u llunio fel dogfennau ar wahân ac maent ar gael ar wefan y Cyngor drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol <http://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/Schoolconsultations.aspx> Bydd effaith gyffredinol yr holl gynigion a amlinellir yn y ddogfen hon yn niwtral; caiff unrhyw gyfleusterau a gynigir yn yr ysgolion ar hyn o bryd, fel clybiau ar ôl ysgol a brecwast eu cadw a gobeithio y byddant yn cael eu gwella a'u hystyried. Mae'r effaith ar y Gymraeg yn un

gadarnhaol, o ran y bydd yn darparu lleoedd Ysgol Gynradd Cyfrwng Gymraeg ychwanegol mewn ardal lle ceir tystiolaeth o alw cynyddol am ddarpariaeth o'r fath.

4. Trefniadau Derbyn

Caiff derbyniadau i'r ysgol newydd, i ddisgyblion rhwng 3 – 16 oed, eu rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel yr Awdurdod Derbyn yn unol â Chod Derbyniadau Ysgol Llywodraeth Cymru. Amlinellir Polisi Derbyn y Cyngor ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir yn y llyfryn derbyn “Dechrau'r Ysgol” a baratowyd gan y Cyngor. Mae derbyniadau i'r chweched dosbarth yn cael eu rheoli gan yr ysgolion unigol. Mae'r ddwy ysgol a gynhwysir yn y cynigion hyn yn ysgolion Cymunedol, a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Caiff niferoedd derbyn ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig eu cyfrifo a'u cyhoeddi pan fydd yr ymgynghoriad ar y cynnig hwn wedi'i gwblhau ac os cytunir bod angen cyhoeddi hysbysiad statudol. Disgwylir y bydd y nifer derbyn oedran Cynradd yn cynyddu, o'i ffigur presennol o 45 fesul grŵp blwyddyn i o leiaf 52. Gallai hyn gynyddu ymhellach yn y dyfodol os bydd y galw am leoedd yn parhau i godi o'r tu mewn i'r dalgylch. Bydd y nifer derbyn Uwchradd yn lleihau yn unol â hynny (184 fesul grŵp blwyddyn ar hyn o bryd), ond rhaid pwysleisio y bydd niferoedd derbyn yn sicrhau bod lleoedd ysgol digonol ar gael i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am leoedd ysgol yn nalgylchoedd yr ysgolion presennol.

5. Tir ac Adeiladau

Os caiff y cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon eu gweithredu, ni fydd unrhyw newid i'r safle, adeiladau a chyfleusterau presennol ar Gampws Garth Olwg oherwydd ni fydd newidiadau yn ofynnol er mwyn gweithredu'r cynigion.

6. Adeiladau ac ystafelloedd

Bydd yr adeiladau a'r ystafelloedd sydd ar gael i ddisgyblion o bob oedran yr un peth ag ydynt ar hyn o bryd; yr unig wahaniaeth fydd oherwydd bydd yr ysgol newydd yn endid unigol, bydd y pennaeth a'r corff llywodraethu yn gallu defnyddio'r adeiladau a'r ystafelloedd yn y ffordd orau er mwyn ateb y galw am leoedd ac er budd plant o bob ystod oedran a fydd yn mynd i'r ysgol.

7. Gwybodaeth am yr Ysgolion

Dangosir yr ysgolion a gynhwysir yn y cynnig a nifer y disgyblion dros y pum mlynedd diwethaf isod. Ceir nifer y disgyblion o'r cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) statudol sy'n gorfod cael ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Ysgol	Math o ysgol	Ystod oedran	Capasiti'r Ysgol 2017	Ionawr 2013	Ionawr 2014	Ionawr 2015	Ionawr 2016	Ionawr 2017	% Lleoedd Dros Ben
-------	--------------	--------------	-----------------------	-------------	-------------	-------------	-------------	-------------	--------------------

									Ionawr 2017
YGG Garth Olwg *	Cynradd	3 - 11	324	292	294	286	283	302	6.8%
YG Garth Olwg	Uwchradd	11-19	1106	825	818	801	807	803	27.4%

**Noder: Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn eithrio disgyblion meithrin*

Dangosir nifer y disgyblion meithrin isod:

Ysgol	Lleoedd Meithrin	Ionawr 2013	Ionawr 2014	Ionawr 2015	Ionawr 2016	Ionawr 2017
YGG Garth Olwg	46	45	39	45	44	53

Dangosir nifer y disgyblion chweched dosbarth isod:

Ysgol	Ionawr 2013	Ionawr 2014	Ionawr 2015	Ionawr 2016	Ionawr 2017
YG Garth Olwg	139	148	134	133	127

Rhagamcanion disgyblion

Dros y pum mlynedd nesaf mae'r rhagamcanion disgyblion ar gyfer y pum ysgol, a gyfrifir yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, fel a ganlyn. Mae'r rhagamcanion yn ystyried tueddiadau blaenorol ynghyd â newidiadau demograffig a ragwelir. Mae'n bwysig nodi na all hyn ystyried unrhyw wyriadau heb eu rhagweld mewn tueddiadau lleol.

Ysgol	Capasiti'r ysgol 2017 (gan gynnwys Meithrin)	Ionawr 2018	Ionawr 2019	Ionawr 2020	Ionawr 2021	Ionawr 2022	% lleoedd dros ben ym mis Ionawr 2022

Ysgol	Capasiti'r ysgol 2017 (gan gynnwys Meithrin)	Ionawr 2018	Ionawr 2019	Ionawr 2020	Ionawr 2021	Ionawr 2022	% lleoedd dros ben ym mis Ionawr 2022
YGG Garth Olwg *	370	367	368	364	366	377	-2%
YG Garth Olwg	1106	802	806	843	859	849	23.2%

Sylwer: Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn cynnwys disgyblion meithrin

Cyflwr yr ysgolion presennol

Comisiynwyd arolygon cyflwr adeiladau gan Lywodraeth Cymru ar y ddwy ysgol a'u cynnal gan EC Harris ym mis Ionawr 2010. Mae canlyniadau'r arolwg fel a ganlyn:

Ysgol	Canlyniad Arolwg Cyflwr Adeiladau	Canlyniad yr Arolwg Addasrwydd
YGG Garth Olwg	A	A
YG Garth Olwg	A	A

Mae Categori A ar gyfer cyflwr adeilad yn golygu bod yr adeilad mewn cyflwr da, yn perfformio fel y bwriedir ac yn gweithredu'n effeithlon.

Mae Categori A ar gyfer addasrwydd yn golygu bod gan yr ysgol gyfleusterau da sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant.

Ansawdd a safonau

Arolygiadau Estyn

Fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion, mae Estyn yn arolygu pob ysgol yng Nghymru. Cafodd YGG Garth Olwg ei harolygu ddiwethaf ym mis Ionawr 2011; cafodd YG Garth Olwg ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai 2013. Dyma farn gyffredinol y timau arolygu:

Ysgol	Dyddiad	Barn - Perfformiad	Barn - Rhagolygon ar gyfer
-------	---------	--------------------	----------------------------

	Arolygu	Presennol	Gwella
YGG Garth Olwg	Ionawr 2011	Da	Da
YG Garth Olwg	Mai 2013	Digonol	Da

O ganlyniad i farn ddigonol ar gyfer perfformiad presennol, cafodd YG Garth Olwg ei gosod yn y categori lle'r oedd yn ofynnol iddi gael ei monitro gan Estyn. Fodd bynnag, cynghorwyd yr ysgol ym mis Tachwedd 2015 y barnwyd iddi wneud cynnydd da o ran y mater allweddol ar gyfer gweithredu yn codi o'r arolygiad a'i bod o ganlyniad i hynny wedi'i dileu o'r rhestr o ysgolion sydd angen eu monitro gan Estyn.

Categoreiddio gan y consortiwm

Ers mis Medi 2012, mae Gwasanaethau Gwella Ysgolion y Cyngor wedi'u darparu gan Gonsortiwm Canolbarth y De, gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Ers 2014, mae ysgolion yn cael eu graddio fel rhai sydd naill ai'n Wyrdd, Melyn, Ambr neu Goch mewn perthynas â'u safonau. Mae'r Consortiwm yn categoreiddio perfformiad pob ysgol yn y rhanbarth ac o'r farn bod:

YGG Garth Olwg yn ysgol 'Werdd', y lefel uchaf y gall ei chyrraedd. Mae'r raddfa hon yn golygu bod gan yr ysgol hanes o gynnal lefel uchel o ddeilliannau dysgwyr, mae'n dangos gwytnwch ar bob lefel ac yn cael ei herio i symud ymlaen tuag at ragoriaeth neu gynnal rhagoriaeth.

Mae YG Garth Olwg yn ysgol 'Felen'. Mae hyn oherwydd bod gan yr ysgol lawer o gryfderau, gyda thystiolaeth o weithgareddau hunanwella sydd wedi cael effaith ar well deilliannau i ddisgyblion. Mae hunanwerthuso yn gadarn ac yn werthusol ac yn nodi'r meysydd priodol ar gyfer datblygu'.

Deilliannau addysgol

Deilliannau Cyfnod Allweddol 5

Mae'r tablau canlynol yn nodi'r canlyniadau CA5 ar gyfer 2016 a 2017:

	2016				2017*			
Ysgol	Nifer ar y Gofrestr	Nifer sy'n nodi swm sy'n cyfateb i 2 swm sy'n cyfateb i 2 Safon	% sy'n nodi swm sy'n cyfateb i 2 Safon Uwch a gyflawnodd y trothwy Lefel 3	Sgôr bwyntiau ehangach gyfartalog	Nifer ar y Gofrestr	Nifer sy'n nodi swm sy'n cyfateb i 2 swm sy'n cyfateb i 2 Safon	% sy'n nodi swm sy'n cyfateb i 2 swm sy'n cyfateb i 2 Safon Uwch a gyflawnodd y trothwy Lefel 3	Sgôr bwyntiau ehangach gyfartalog

		Uwch				Uwch		
YG Garth Olwg	53	44	95.45%	718.6	43	42	97.6%	I'w chadarnhau

Sylwer - * - data dros dro heb eu dilysu gan yr ysgol

Mae'r Trothwy Lefel Tri yn cael ei gyflawni gan ddisgyblion drwy basio'r hyn sy'n cyfateb i ddwy Safon Uwch neu ragor ac mae hyn yn cynnwys cymwysterau BTEC. Mae'r tablau isod yn nodi perfformiad y disgyblion chweched dosbarth dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer pob un o'r prif gymwysterau a safwyd yn CA5.

O'r myfyrwyr chweched dosbarth hynny a astudiodd Safon Uwch, mae'r perfformiad arholiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi'i nodi isod:

	2016				2017			
Ysgol	Nifer yr ymgeiswyr	%A*-E	%A*-C	%A*-A	Nifer yr ymgeiswyr	%A*-E	%A*-C	%A*-A
YG Garth Olwg	108	90.74	65.74	12.04	111	98.2	72.97	24.32

Canlyniadau CBAC yn unig

O'r myfyrwyr chweched dosbarth hynny a astudiodd gymwysterau BTEC, mae'r perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi'i nodi isod:

	2016		2017	
Ysgol	Nifer yr ymgeiswyr BTEC	% Cyfradd lwyddo	Nifer yr ymgeiswyr BTEC	% Cyfradd lwyddo
YG Garth Olwg	7	86%	4	100%

Data dros dro a roddwyd gan yr ysgol

O'r myfyrwyr chweched dosbarth hynny a astudiodd Fagloriaeth Cymru (BC) mae'r perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi'i nodi isod:

	2016	2017
--	-------------	-------------

Ysgol	Nifer yr ymgeiswyr BC	% Cyfradd lwyddo	Nifer yr ymgeiswyr BC	% Cyfradd lwyddo
YG Garth Olwg	31	93.5%	24	92%

Data dros dro a roddwyd gan yr ysgol

Deilliannau Cyfnod Allweddol 4

Pynciau	YG Garth Olwg	
	2016	2017
Trothwy Lefel 1	100%	100%
Trothwy Lefel 2	99.22%	77.4%
Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg	67.97%	67.7%
Dangosydd Pynciau Craidd	67.19%	66.9%
Sgôr bwyntiau ehangach gyfartalog wedi'i chapio	374.89	I'w chadarnhau

Mae ffigurau 2017 yn rhai dros dro yn seiliedig ar ddata o'r ysgol.

Presenoldeb

Nodir presenoldeb y disgyblion yn yr ysgolion dros y tair blynedd diwethaf isod:

Canran y sesiynau hanner diwrnod yr aed iddynt gan ddisgyblion oedran ysgol statudol yn ystod y flwyddyn academiaidd						
Ysgol	2015	2015 Chwarter Meincnod	2016	2016 Chwarter Meincnod	2017	2017 Chwarter Meincnod
YGG Garth Olwg	96.3	2	96.2	2	Ddim ar gael eto	Ddim ar gael eto
YG Garth Olwg	94.5	2	94.4	3	94.3	Ddim ar gael eto

Gwybodaeth ariannol

	YG Garth Olwg (Presennol)	YGG Garth Olwg (Presennol)	Ysgol 3 – 19 newydd (Dyfodol)	Arbedion Refeniw
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyllideb Refeniw Flynyddol yn seiliedig ar gyllideb 2017/18	3,201	1,054	4,211	44

Sylwer: Arbedion refeniw i'w hailfuddsoddi yn y system ysgol.

8. Beth yw'r broses statudol o gau ysgolion ac agor ysgol newydd?

Gwneir y Cod ar Drefniadaeth Ysgolion ("Y Cod") o dan Adrannau 38 a 39 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Daeth y Cod i rym ar 1 Hydref 2013 ac mae'n berthnasol mewn perthynas â'r holl gynigion ysgol a gyhoeddwyd drwy hysbysiad statudol ar ôl y dyddiad hwnnw. Rhaid i gynigion i gau ysgolion ac agor ysgol newydd ddilyn y broses ganlynol:

1. Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried y Cod ac yn awdurdodi ymgynghoriad ar y newidiadau i'r ysgolion;
2. Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori **rhaid** i'r Cyngor ddarparu dogfen ymgynghori i ymgynghoreion a rhoi o leiaf 42 diwrnod iddynt ymateb, gydag o leiaf 20 o'r diwrnodau hyn yn ddiwrnodau ysgol. Os bydd y Cyngor o'r farn ei bod yn briodol cynhelir cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori;
3. Caiff sylwadau ymgynghori eu coladu a'u crynhoi gan y Cyngor. Caiff y crynodeb hwn ynghyd ag ymatebion swyddogion y Cyngor eu cyhoeddi mewn adroddiad ymgynghori o fewn 13 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori a'u cyflwyno i Gabinet y Cyngor er mwyn eu hystyried;
4. Bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen gyda'r newidiadau o fewn 26 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Os mai'r penderfyniad yw bwrw ymlaen, cymerir Cam 5. Os bydd opsiwn newydd yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad y bydd Cabinet y Cyngor yn dymuno ei ystyried, ailadroddir Camau 1-3;
5. Cyhoeddir hysbysiad statudol gan ddarparu cyfnod hysbysu 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. **Rhaid** i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a chyda 15 diwrnod ysgol (heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) yn y cyfnod hysbysu;
6. Os derbynnir gwrthwynebiadau, **rhaid** i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan roi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'u hymatebion iddynt cyn diwedd 7 diwrnod gan ddechrau gyda diwrnod penderfyniad yr awdurdod lleol o ran a ddylid bwrw ymlaen gyda'r cynigion;
7. Rhaid i Gabinet y Cyngor benderfynu cyhoeddi ei benderfyniad ar y cynigion o fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu;

Os bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo dylent gael eu gweithredu yn unol â'r dyddiad a roddir yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad a addaswyd ar ôl hynny.

Atodiad 1

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Rhaid nodi bod y ddwy ysgol a gynhwysir yn y cynnig hwn yn ysgolion Cyfrwng Cymraeg llawn, lle mae'r holl ddarpariaeth addysg yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Ni fydd hyn yn newid os cytunir ar y cynigion hyn; bydd yr ysgol 'pob oed' 3 – 19 newydd yn gwneud yr un ddarpariaeth iaith yn union â'r ddwy ysgol a fydd yn cau. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ysgol amgen, bydd gan yr ysgol newydd yr un disgyblion ac yn defnyddio'r un cyfleusterau ysgol, y ddau safle ac adeiladau fel ar hyn o bryd. Bydd unrhyw ddarpariaeth allgyrsiol neu ychwanegol ar gyfer disgyblion, fel clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol a ddarperir ar hyn o bryd yn parhau yn yr ysgol newydd hefyd, ni wneir unrhyw newidiadau o gwbl.

Mae'r ddwy ysgol wedi'u lleoli ar Gampws Dysgu Gydol Oes Garth Olwg ar hyn o bryd, sydd hefyd yn cynnwys canolfan dysgu gydol oes, llyfrgell gyhoeddus a meithrinfa ddydd (a weithredir gan Fudiad Meithrin ac sy'n cynnig darpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg), yn ogystal â'r ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Bydd yr holl gyfleusterau y tu allan i'r ysgolion sy'n rhannu'r campws ar hyn o bryd yn parhau hefyd.

Mae'r ganolfan dysgu gydol oes yn rhannu rhai cyfleusterau â'r ysgol uwchradd ar hyn o bryd. Ni fydd creu'r ysgol newydd yn effeithio ar weithrediad hyn. Bydd eu cysylltiadau â'r ysgol yn parhau. Byddant hefyd yn parhau i gynnig lluo o gyrsgiau i'r cyhoedd, sy'n cynnwys llawer o gyrsgiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y prif newid i'r ddarpariaeth ysgol fydd y modd y caiff ei rheoli, gyda dim ond un strwythur arweinyddiaeth a rheoli yn lle'r ddau sydd ganddi ar hyn o bryd. Bydd bod yn un ysgol sengl, 'pob oed' yn galluogi'r safle a'r cyfleusterau i gael eu rheoli fel un endid sengl, ac felly'n rhoi mwy o hyblygrwydd o ran sut mae'r adeiladau'n cael eu defnyddio a lle mae disgyblion yn cael adeilad a dosbarthiadau ac yn cael eu haddysgu. Mae'r data disgyblion a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn dangos yn glir y galw presennol ac wedi'i ragweld ar gyfer lleoedd ysgol Gynradd Gymraeg yn nalgylch presennol yr ysgol yn codi y tu hwnt i'r capasiti a gyhoeddwyd ar gyfer YGG Garth Olwg o fewn 5 mlynedd. Ar yr un pryd, mae gan YG Garth Olwg dros 300 o leoedd gwag ar hyn o bryd ac er bod disgwyl i hyn leihau yn y 5 mlynedd nesaf i 257 o leoedd gwag, mae'r ffigur hwn yn dal i gynrychioli dros 23% o gyfanswm capasiti'r ysgol Uwchradd. Mae plant ysgol gynradd eisoes wedi'u lleoli yn yr ysgol Uwchradd, yn sgil cyfyngiadau ffisegol eu hadeilad. Mae'r trefniant hwn wedi bod ar waith am sawl blwyddyn gyda dosbarth arall o blant ysgol gynradd wedi'u hadleoli i adeilad yr ysgol uwchradd ym mis Medi 2017. Bydd ymestyn y broses hon o adleoli dosbarthiadau a rheoli'r ysgol fel darpariaeth sengl, 'pob oed' yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Pennaeth a'r corff llywodraethu ailstrwythuro'r ysgol a defnyddio'r adeiladau'n fwy priodol ac yn effeithiol; bydd hyn yn caniatáu iddynt gynyddu'r capasiti ar gyfer disgyblion oed Cynradd i ateb y galw a gydnabyddir am leoedd, ac ar yr un pryd yn dileu'r capasiti dros ben sy'n bodoli ar hyn o bryd yn yr adeilad ysgol Uwchradd. Mae hon yn ffordd gost effeithiol ac effeithlon iawn o ddarparu'r lleoedd ychwanegol ar gyfer Addysg Gynradd Cyfrwng Cymraeg ac mae'n glir bod angen y rhain yn yr ardal hon.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Er mwyn helpu'r Cyngor i ddod i benderfyniad, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech ateb y cwestiynau canlynol. Dylid dychwelyd holiaduron wedi'u llenwi at:

Y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} ganrif

Tŷ Trevithick

Abercynon

CF45 4UQ

neu drwy ffacs i 01443 744201, neu anfonwch neges e-bost i schoolplanning@rctcbc.gov.uk

Y Cynnig

Creu ysgol 'pob oed' ar Gampws Garth Olwg, ar gyfer plant rhwng 3 a 19 oed, drwy gau YGG Garth Olwg ac YG Garth Olwg

1. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw ☐ Nac ydw ☐ Dim yn siŵr ☐
- Rhowch wybod i ni beth yw'r rhesymau dros eich dewis

2. Nodwch unrhyw farn neu bwyntiau amgen yr hoffech iddynt gael eu hystyried (atodwch daflenni ychwanegol os oes angen)

3. Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant disgybl yn yr ysgol a enwyd, llywodraethwr yn yr ysgol a enwyd ac ati)

4. Enw (dewisol)

5. Rhowch fanylion cyswllt os hoffech gael eich hysbysu am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori

Diolch am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur hwn

Anfonwch yr holiaduron wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad uchod erbyn 29 Rhagfyr 2017 fan bellaf

Atodiad 2

Nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd gyda chyngor ysgol Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg i drafod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg a chreu un ysgol newydd.

Dydd Llun 6 Tachwedd 2017 am 1:45pm

Yn Bresennol: Esther Thomas, Sophie Nicholls, Julie Hadley, Miss Thomas, a deuddeg aelod o'r cyngor ysgol o Flynyddoedd 3-6.

Amlinellodd ET y cynnig i gau Ysgol Gyfun Garth Olwg ac Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg a chreu ysgol 3-19 cyfrwng Gymraeg newydd ar y safle presennol. Esboniwyd y broses ymgynghori yn fanwl a nodwyd mai Cabinet y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, ym mis Ionawr 2018, ynghylch p'un a eir ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd cyfnod o 28 diwrnod ar ôl derbyn adroddiad y Cabinet i unigolion wrthwynebu'r cynnig yn ffurfiol. Yn yr achos hwn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad am y cynnig.

Aeth ET ymlaen i amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'r cynnig hwn a oedd yn cynnwys gwella deilliannau addysgol, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel un campws. Mae'r dull hwn eisoes wedi gweithio'n llwyddiannus mewn ysgolion eraill, fel Ysgol Llanhari, ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd hyn yn digwydd yng Ngarth Olwg hefyd. Mae pwysau ar gyllidebau ysgol yn parhau, a chan nad yw Garth Olwg yn ysgol menter cyllid preifat mwyach, mae'r Cyngor wedi penderfynu bod agor ysgol 3-19 ar safle Garth Olwg yn gyfle rhagorol.

Nododd ET fod adroddiad Donaldson yn pwysleisio addysg lyfn sy'n canolbwyntio llai ar gyfnodau allweddol a sectorau ac yn annog plant i gyrraedd neu fynd y tu hwnt i bob cam dilyniant. Gallai agor ysgol 3-19 yng Ngarth Olwg ddarparu cyfleoedd rhagorol i staff a disgyblion drosglwyddo arbenigedd a gwybodaeth wrth iddynt rannu cyfleusterau.

Wedyn, esboniodd ET y byddai corff llywodraethol dros dro yn cael ei ffurfio pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ac y byddant yn penodi pennaeth newydd ac yn creu strwythur ar gyfer yr ysgol 3-19. Y corff llywodraethol dros dro a'r pennaeth fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar strwythur a phenodiadau staff.

Wedyn, gofynnodd ET a oedd unrhyw gwestiynau gan y cyngor ysgol.

C – Mae'r ysgol gyfun yn dechrau'r ysgol am 8:30am ac yn gorffen am 3:30pm, a fydd rhaid i ni wneud hynny hefyd os ydym i gyd yn un ysgol?

ET – Nid ydym yn gwybod hynny eto gan mai pennaeth a chorff llywodraethol newydd yr ysgol fydd yn gwneud y penderfyniad.

C – A fyddwn yn gallu defnyddio rhai o'r ystafelloedd technoleg bwyd, gwyddoniaeth a chelf os ydym i gyd mewn un ysgol?

ET - Os bydd y corff llywodraethol newydd yn penderfynu eu bod am i hyn ddigwydd, nid oes rheswm pam na ddylai. Mae'r cwricwlwm newydd yn awgrymu y dylai'r rheiny sy'n gallu dysgu'n gyflym allu symud trwy eu haddysg yn gyflymach. Gallai hyn olygu bod disgyblion yn gallu defnyddio'r ystafelloedd hynny a chael gwersi wedi'u teilwra yn unol â'u hanghenion yn y dyfodol.

C – Beth fyddai manteision uno'r ysgolion?

ET – Gallai fod llawer o fanteision yn sgil gwneud hyn. Rydym eisoes wedi trafod defnyddio'r ystafelloedd penodol yn adeilad yr ysgol gyfun, a gallai fod cyfleoedd i ddisgyblion a staff helpu ei gilydd a rhannu eu harbenigedd yn eu pynciau. Mae llawer o bosibiliadau ynghlwm wrth y cynnig hwn, ond hoffem wybod beth yw barn disgyblion amdano.

Sylw – Rydw i'n credu y gallai fod yn syniad da.

C – Ble fyddwn ni'n bwyta os byddwn yn cael gwersi yn adeilad yr ysgol gyfun?

ET – Ar hyn o bryd, mae disgyblion oedran cynradd yn bwyta yn adeilad yr ysgol gynradd hyd yn oed pan fyddant yn cael rhai gwersi blwyddyn chwech yn adeilad yr ysgol gyfun. Nid oes rheswm pam na all hynny barhau, ond gallai'r corff llywodraethol benderfynu ei newid.

C – Os bydd rhaid i athrawon gael cyfarfod yn adeilad yr ysgol gyfun a bod cyfarfod yn cael ei gynnal yn adeilad yr ysgol gynradd hefyd, sut maent yn mynd i allu gwneud hyn?

ET – Bydd yn rhaid i'r ysgol lunio amserlen sy'n addas ar gyfer hyn. Addysgu yw'r peth pwysicaf fel nad oes unrhyw blant yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain o ganlyniad i gyfarfodydd staff. Dylai'r athrawon fod yn addysgu yn eu dosbarthiadau o hyd, yn ôl yr arfer.

C – Os bydd yr ysgolion yn dod at ei gilydd, a fydd gwisg ysgol newydd?

ET – Y corff llywodraethol newydd fydd yn penderfynu ar hynny ar y cyd â'r pennaeth, ond maent yn debygol o ofyn am farn disgyblion ar hyn hefyd. Efallai y byddant eisiau cadw'r gwisgoedd ysgol yn wahanol, neu efallai y byddant eisiau iddynt fod yr un fath i ddangos ei bod yn un ysgol.

C – Os byddwn yn cael rhai gwersi yn adeilad yr ysgol gyfun, a fydd rhaid i ni symud i wahanol ystafelloedd dosbarth ar gyfer pob gwers?

ET – Lle’r ysgol fydd penderfynu hyn. Gan mai disgyblion oedran cynradd ydynt, mae hyn yn annhebygol, ond gallai disgyblion iau ymweld ag ystafell dechnoleg neu wyddoniaeth arbenigol, er enghraifft os ydynt yn cael gwersi yn y pwnc hwnnw. Rydym yn disgwyl y gallai olygu symud ar gyfer rhai gwersi ond bydd hyn yn cael ei benderfynu gan y pennaeth a’r llywodraethwyr newydd.

C – A fydd ein gwersi addysg gorfforol yn newid?

Esboniodd ET y gallent newid. Os bydd gan ddisgyblion fynediad at y neuadd chwaraeon neu’r cyrtiau tennis, yna efallai y gallant ddysgu mwy o sgiliau yn gynharach yn eu bywyd ysgol. Bydd hyn o fudd i’r ysgol yn y pen draw, oherwydd bydd gan ddisgyblion fwy o sgiliau yn iau a gallent eu defnyddio i chwarae ar gyfer y timau chwaraeon. Lle’r pennaeth newydd yw penderfynu hyn, ond rydym yn disgwyl y bydd disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd yn hytrach na llai.

C – A fyddwn yn cael amser chwarae ar yr iardiau cynradd neu gyfun?

Esboniodd ET mai’r llywodraethwyr ysgol a’r pennaeth newydd fydd yn penderfynu hyn, ond ei bod yn fwyaf tebygol y bydd disgyblion oedran cynradd ar wahân o blant hŷn.

C – A fydd ysgolion eraill yn uno i greu un ysgol?

ET - Bydd y plant sy’n dod i Ysgol Gyfun Garth Olwg o ysgolion eraill ar hyn o bryd yn dod i ymuno â’r ysgol ym mlwyddyn saith o hyd, ond mae’n bwysig ein bod yn meddwl am y plant hynny hefyd ac yn gwneud yn siŵr bod gennym ddigon o sesiynau pontio gyda nhw hefyd fel eu bod yn teimlo’n rhan o’r ysgol pan fyddant yn cyrraedd. Bydd hyn, gobeithio, yn gadael i ddisgyblion a’r athrawon ddod i adnabod y disgyblion eraill yn gynt.

C – Os bydd rhaid i ni fwyta yn adeilad yr ysgol gyfun, beth fydd yn digwydd i’n staff arlwygo?

Esboniodd ET fod angen nifer benodol o staff i ofalu am bob un o’r plant, felly bydd angen yr un nifer o staff o hyd gan fod yr un nifer o blant yn yr ysgol o hyd.

C – Pryd bydd y corff llywodraethol yn gwneud y mathau hyn o benderfyniadau?

ET – Esboniodd ET fod yn rhaid cytuno ar y cynnig trwy’r ymgynghoriad hwn yn gyntaf. Esboniwyd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda chynghor ac athrawon yr ysgol gyfun yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw ac nad yw’r ymgynghoriad yn cau tan fis Rhagfyr. Dim ond ar ôl i’r Cabinet gymeradwyo’r cynnig hwn y caiff ei dderbyn yn llawn, ac wedyn, gellir penodi’r pennaeth a’r corff llywodraethol i wneud eu benderfyniadau ar y strwythur, ac ati.

C – Pam na allwn ni aros fel dwy ysgol ar wahân?

Esboniodd ET y gallai’r ysgolion aros fel ysgolion ar wahân os dyna beth oedd pobl yn ei ddymuno, ond bod y Cyngor o’r farn fod mwy o fanteision i uno’r ysgolion.

C – Os bydd yr ysgolion yn uno, a fydd yr adeiladau’n newid?

Esboniodd ET nad oes unrhyw awydd i newid yr adeiladau eto, gan fod llawer o leoedd dros ben yn adeilad yr ysgol gyfun ar hyn o bryd, felly mae digon o le ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol.

C – Rydym eisoes yn elwa ar fynd i adeilad yr ysgol gyfun ar gyfer rhai gwersi ym mlwyddyn chwech. Allwn ni ddim parhau i wneud hynny heb uno'r ysgolion?

Esboniodd ET y byddai modd gwneud hynny, ond gallai uno'r ysgolion gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer disgyblion ac athrawon gan y bydd un uwch dîm arweinyddiaeth yn trefnu'r modd y mae'r ysgol yn gweithredu. Gallai hyn alluogi mwy o ddefnydd o gyfleusterau a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd rhwng y staff a'r disgyblion.

C – A fydd plant eraill yn dod i'r ysgol os yw'n un ysgol?

Esboniodd ET na fydd unrhyw blant oedran cynradd ychwanegol yn ymuno â'r ysgol.

Cyfarfod Cyngor Ysgol YGG Garth Olwg

Gofynnwyd i ddisgyblion ysgrifennu'r manteision neu'r rhwystrau posibl yn gysylltiedig â chreu ysgol 3-19 yng Ngarth Olwg, yn eu barn nhw.

Sylwadau'r disgyblion:

Manteision

"Gallai fod llawer o fanteision i ni yn sgil uno ysgolion. Gallen ni ddefnyddio gwahanol ystafelloedd, cwrdd â gwahanol athrawon a chymdeithasu â disgyblion hyn."

"Gallen ni fynd i wahanol ystafelloedd."

"Gallwn ni gymryd rhan mewn gwahanol chwaraeon."

"Bydd yr ysgol yn fawr iawn."

"Gallwn ni wneud ffrindiau newydd sy'n hŷn."

"Gallwn ni ddefnyddio'r cyfleusterau arbenigol yn yr ysgol gyfun."

"Gallwn ni wneud un cyngor ysgol mawr i ddisgyblion hŷn ac iau ddweud beth yw eu barn"

"Bydd mwy o le yn yr adeiladau eraill."

"Gallen ni ddefnyddio'r ystafell gyfrifiaduron ac mae'r ffreutur yn fawr."

"Gallen ni wneud gymnasteg yn y neuadd chwaraeon fawr."

Rhwystrau

"Gallai pethau fynd o chwith os bydd disgyblion hŷn yn dechrau pigo ar ddisgyblion iau. Gallai disgyblion iau dorri a difrodi'r offer y mae'r plant oedran cyfun yn ei ddefnyddio hefyd."

"Bydd angen i ni gerdded i wersi, ac oddi yno."

"Dydy e ddim yn syniad da cael un tîm arweinyddiaeth yn rheoli'r ysgol."

"Bydd rhaid i ni gerdded rhwng adeiladau yn fwy."

"Gallai fod llawer o gerdded ar gyfer gwersi."

Nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd gyda chyngor ysgol Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg i drafod y cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg a chreu un ysgol newydd.

Dydd Llun, 6 Tachwedd 2017 am 2:25pm

Yn Bresennol: Esther Thomas, Sophie Nicholls, Julie Hadley, Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, ac aelodau o'r cyngor ysgol.

Amlinellodd ET y cynnig i gau Ysgol Gyfun Garth Olwg ac Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg a chreu ysgol 3-19 cyfrwng Gymraeg newydd ar y safle presennol. Esboniwyd y broses ymgynghori yn fanwl a nodwyd mai Cabinet y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, ym mis Ionawr 2018, ynghylch p'un a eir ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd cyfnod o 28 diwrnod ar ôl derbyn adroddiad y Cabinet i unigolion wrthwynebu'r cynnig yn ffurfiol. Yn yr achos hwn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad am y cynnig.

Aeth ET ymlaen i amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'r cynnig hwn a oedd yn cynnwys gwella deilliannau addysgol, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel un campws. Mae'r dull hwn eisoes wedi gweithio'n llwyddiannus mewn ysgolion eraill, fel Ysgol Llanhari ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd hyn yn digwydd yng Ngarth Olwg hefyd. Mae pwysau ar gyllidebau ysgol yn parhau, a chan nad yw Garth Olwg yn ysgol menter cyllid preifat mwyach, mae'r Cyngor wedi penderfynu bod agor ysgol 3-19 ar safle Garth Olwg yn gyfle rhagorol.

Nododd ET fod adroddiad Donaldson yn pwysleisio addysg lyfn sy'n canolbwyntio llai ar gyfnodau allweddol a sectorau ac yn annog plant i gyrraedd neu fynd y tu hwnt i bob cam dilyniant. Gallai agor ysgol 3-19 yng Ngarth Olwg ddarparu cyfleoedd rhagorol i staff a disgyblion drosglwyddo arbenigedd a gwybodaeth wrth iddynt rannu cyfleusterau.

Wedyn, esboniodd ET y byddai corff llywodraethol dros dro yn cael ei ffurfio pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ac y byddant yn penodi pennaeth newydd ac yn creu strwythur ar gyfer yr ysgol 3-19. Y corff llywodraethol dros dro a'r pennaeth fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar strwythur a phenodiadau staff.

Wedyn, gofynnodd ET a oedd unrhyw gwestiynau gan y cyngor ysgol.

Disgybl Blwyddyn 13 – Pryd fydd yr uno yn digwydd?

ET – Yn ôl yr amserlen arfaethedig, bydd yr ysgol pob oed newydd yn agor ym mis Medi 2018, ond gallai hyn newid os credir bod y raddfa amser yn rhy dynn.

Disgybl Blwyddyn 10 – Beth yw prif ddiben uno'r ysgolion?

ET – Mae'r cwricwlwm newydd gan yr Athro Donaldson yn awgrymu y dylid cyflwyno addysg i safon y gall pob plentyn ymdopi â hi, beth bynnag fo'u grŵp blwyddyn neu gyfnod allweddol, fel bod pob plentyn yn cael cyfle i wneud cynnydd ar ei gyflymdra ei hun trwy addysg. Mae'r Cyngor o'r farn mai ysgol pob oed ar gyfer disgyblion 3-19 oed yw'r ffordd orau i ddarparu'r cyfle hwn i ddisgyblion, oherwydd gall staff a disgyblion rannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth a chael eu rheoli gan un uwch dîm arweinyddiaeth.

Disgybl Blwyddyn 8 – Pa ffactorau a achosodd i chi wneud y penderfyniad hwn?

ET – Roedd y newidiadau i'r cwricwlwm a grybwyllwyd yn flaenorol yn ffactor mawr wrth wneud y penderfyniad hwn, ond gwyddom hefyd fod y system hon eisoes yn gweithio gan fod ysgolion eraill yn RhCT fel Ysgol Llanhari wedi cael eu rhedeg yn llwyddiannus fel hyn ers blynnyddoedd lawer. Mae pwysau ar gyllidebau ysgol ar draws RhCT hefyd. Byddai'r newid hwn yn creu arbedion maint ar y safle hwn a dylai helpu'r ysgol i redeg yn fwy effeithlon. Mae'r ffaith fod y Cyngor wedi prynu'r contract menter cyllid preifat ar gyfer Garth Olwg yn golygu bod mwy o hyblygrwydd erbyn hyn o ran sut gellir rhedeg yr ysgol ac mae'r Cyngor eisiau manteisio ar y cyfle hwn i weithredu newid y bydd staff a disgyblion yn elwa arno pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn.

Disgybl Blwyddyn 13 – Felly, a yw'r newid o ganlyniad i resymau ariannol yn unig? Pam na wnaethom ni hyn pan adeiladwyd yr ysgol i ddechrau?

ET – Mae'r agwedd at addysg wedi newid yn y degawd diwethaf, a dim ond yn ddiweddar y cynigiwyd y syniad i gael ysgolion 3 i 19, a bydd cwricwlwm i gyd-fynd ag ef nawr. Pan adeiladwyd yr ysgol, nid oedd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r systemau hyn, ac roedd y contract menter cyllid preifat yn ei gwneud yn anodd newid strwythur yr ysgol.

Disgybl Blwyddyn 13 – Os ydym yn ysgol pob oed, un grŵp yn unig o blant cynradd sy'n elwa ar ein cyfleusterau a'n harbenigedd. A yw hyn yn deg ar yr ysgolion cynradd eraill?

ET – Trwy gynnal ymgynghoriadau fel hyn ar ysgolion 3 i 19 mewn ardaloedd eraill o RhCT fel Porth, Tonypandy a Thonyrefail, mae wedi dod yn glir fod angen mwy o waith pontio gyda disgyblion o'r ysgolion eraill a fydd yn ymuno â'r ysgol pob oed pan fyddant yn oedran ysgol gyfun. Mae athrawon yn Porth, Tonypandy a Thonyrefail i gyd wedi bod yn gweithio gyda'r ysgolion cynradd cysylltiedig fel bod disgyblion ac athrawon yn gyfarwydd â'i gilydd cyn iddynt gyrraedd yr ysgol newydd. Mae hyn yn bwysig iawn i'r Cyngor, a hoffem wneud mwy o hyn yn y dyfodol, gan gynnwys yng Ngarth Olwg.

Disgybl Blwyddyn 10 – Beth fydd yn digwydd o ran rhannu adnoddau?

ET – Byddai potensial yn bendant i rannu adnoddau â'r disgyblion cynradd ac uwchradd. Mae 300 o leoedd dros ben yn yr ysgol uwchradd ar hyn o bryd, felly mae digonedd o le i'r

disgyblion oedran cynradd ddefnyddio ystafelloedd arbenigol fel offer gwyddoniaeth, technoleg ac addysg gorfforol.

Disgybl Blwyddyn 13 – Sut gallwch chi ddweud y gallai 300 o ddisgyblion ychwanegol ymuno â'r ysgol? Does dim digon o le, yn enwedig yn y coridorau a'r ffreutur.

JH – Cyfrifiad cenedlaethol yw'r cyfrifiad, sy'n seiliedig ar niferoedd ysgol presennol ar y gofrestr a metrau sgwâr yr ysgol. Er enghraifft, mewn theori, gallai unrhyw ystafell ddosbarth nad yw'n cael ei defnyddio ar adeg benodol ddal 30 disgybl arall. Bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn dweud nad oes lle, ond mae angen i ni edrych ar y modd y caiff y gwagle ei ddefnyddio i weld ble gallwn wneud y mwyaf o'r lle sydd gennym er mwyn gwneud lle i unrhyw ddosbarthiadau oedran cynradd ychwanegol os bydd angen.

Pennaeth – mae ystafell sydd byth yn cael ei defnyddio yn y bloc DaTh, ac ystafell arall sy'n cael ei defnyddio am 3 awr yr wythnos yn unig, felly, mewn theori, gallai 60 disgybl arall gael gwersi yn yr ystafelloedd dosbarth hynny ar unrhyw adeg benodol. Nid yw hyn yn golygu ein bod eisiau llenwi 300 o leoedd eraill, ond bod yr adeilad wedi cael ei adeiladu fel y gallem wneud hyn yn y dyfodol.

Disgybl Blwyddyn 8 – A fydd y wisg ysgol yn aros yr un fath?

ET – Eich pennaeth newydd a'r corff llywodraethol dros dro wedi iddynt gael eu penodi fydd yn penderfynu hynny. Byddent eisiau ymgynghori â disgyblion ar hyn hefyd.

Disgybl Blwyddyn 7 – A fydd rhaid i staff ailymgeisio am eu swyddi?

ET – Bydd. Bydd y pennaeth yn cael ei benodi gan y corff llywodraethol dros dro, a gyda'i gilydd, byddant yn sefydlu'r strwythur ysgol newydd. Pan fydd y strwythur hwnnw'n gyflawn, bydd athrawon yn gallu ymgeisio am rolau o fewn y strwythur hwnnw. Bydd y broses recriwtio'n cael ei chlustnodi i'r athrawon hynny sydd eisoes yn gweithio yn yr ysgol ar yr adeg honno. Ni ddylai fod yna unrhyw broblemau yn yr ysgol hon, ond ni allwn sicrhau 100% y bydd gan bob un o'r athrawon swyddi yn y strwythur ysgol newydd gan mai'r pennaeth a'r corff llywodraethol fydd yn penderfynu hyn.

Disgybl Blwyddyn 10 – Sut byddwn yn sicrhau diogelwch disgyblion wrth i bob plentyn symud o gwmpas y safle?

ET – Diogelwch disgyblion yw'r peth pwysicaf i'r Cyngor. Bydd angen i ni edrych ar lif traffig o gwmpas y safle a gwneud addasiadau angenrheidiol. Mae rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 eisoes yn cael rhai gwersi yma, ac nid oes unrhyw broblemau o ran sicrhau eu bod yn mynd yn ddiogel o un adeilad i'r llall.

Disgybl Blwyddyn 13 – A fydd rhannu ystafelloedd yn arwain at safonau addysgu is?

ET – Mae'n debygol y bydd safonau addysgu'n cynyddu yn hytrach na gostwng. Wedyn, bydd athrawon yn y sector cynradd ac uwchradd yn gallu gweithio gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth ac arbenigedd a darparu addysg gref a chyflwyno'r cwricwlwm newydd. Bydd

hyn o fudd i ddisgyblion sy'n rhagori, yn ogystal â disgyblion y gallai fod angen mwy o gymorth arnynt o ran llythrennedd a rhifedd, am fod athrawon ysgol gynradd yn arbenigo mewn helpu plant â darllen, ac ati.

Disgybl – Rydw i'n credu o hyd y bydd ychwanegu 300 o ddisgyblion eraill yn gostwng safonau addysgu.

ET – Ni fyddwn yn ychwanegu 300 o blant at yr ysgol. Byddwn yn gadael ychydig mwy o ddisgyblion oedran cynradd i'r ysgol i ddefnyddio'r gofod yn effeithiol. Mae hyn yn gyfle rhagorol i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Nodiadau cyfarfod gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Gyfun Garth Olwg

Dydd Llun 6 Tachwedd 2017 am 3:45pm

Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor o ran posibilrwydd cau'r ysgol

Yn Bresennol

Esther Thomas, Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes

Andrea Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Julie Hadley, Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion

Nicola Goodman, Uwch Swyddog Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Grace Zecca-Hanagan, Swyddog Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Ellen Williams, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol

Sarah Corcoran, Uwch Ymgynghorydd Her

Mererid Davies, UCAC

Dean Price, Unsain

67 aelod o staff ysgol a'r corff llywodraethol.

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor.

Croesawodd Esther Thomas (ET) bawb i'r cyfarfod, ac amlinellodd ddiben y cyfarfod a'r broses, gan gyfeirio hefyd at y wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Amlinellodd ET y cynnig i gau Ysgol Gyfun Garth Olwg ac Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg a chreu ysgol 3-19 cyfrwng Cymraeg newydd ar y safle presennol. Esboniwyd y broses ymgynghori yn fanwl a nodwyd mai Cabinet y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, ym mis Ionawr 2018, ynghylch p'un a eir ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd cyfnod o 28 diwrnod ar ôl derbyn adroddiad y Cabinet i unigolion wrthwynebu'n ffurfiol i'r cynnig. Yn yr achos hwn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad am y cynnig.

Aeth ET ymlaen i amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'r cynnig hwn a oedd yn cynnwys gwella deilliannau addysgol, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol fel un campws. Mae'r dull hwn eisoes wedi gweithio'n llwyddiannus mewn ysgolion eraill, fel Ysgol Llanhari ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd hyn yn digwydd yng Ngarth Olwg hefyd. Mae pwysau ar gyllidebau ysgol yn parhau, a chan nad yw Garth Olwg yn ysgol menter cyllid preifat mwyach, mae'r Cyngor wedi penderfynu bod agor ysgol 3-19 ar safle Garth Olwg yn gyfle rhagorol.

Nododd ET fod adroddiad Donaldson yn pwysleisio addysg lyfn sy'n canolbwyntio llai ar gyfnodau allweddol a sectorau ac yn annog plant i gyrraedd neu fynd y tu hwnt i bob cam dilyniant. Gallai agor ysgol 3-19 yng Ngarth Olwg ddarparu cyfleoedd rhagorol i staff a disgyblion drosglwyddo arbenigedd a gwybodaeth wrth iddynt rannu cyfleusterau.

Wedyn, esboniodd ET y byddai corff llywodraethol dros dro yn cael ei ffurfio pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ac y byddant yn penodi pennaeth newydd ac yn creu strwythur ar gyfer yr ysgol 3-19. Y corff llywodraethol dros dro a'r pennaeth fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar strwythur a phenodiadau staff. Wedyn, gofynnodd ET a oedd yna unrhyw gwestiynau gan y staff a'r llywodraethwyr.

Wedyn, agorwyd y cyfarfod ar gyfer cwestiynau.

C – A fyddwn yn colli unrhyw gyfrifoldebau addysgu a dysgu fel rhan o'r strwythur newydd? Esboniodd EW, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, wedi i'r corff llywodraethol newydd a'r pennaeth gael eu penodi a bod y strwythur newydd ar waith, byddai staff yn gallu ymgeisio am rolau o fewn y strwythur hwnnw. Gallai fod yna achosion ble mae cyfrifoldebau staff yn newid ychydig a gallai hyn arwain at golli rhai cyfrifoldebau addysgu a dysgu. Yn yr achosion hyn, bydd AD yn cynghori trwy gydol y broses, ond bydd cyflogau pob un o'r staff yn cael eu diogelu am dair blynedd.

C – A fydd staff yn colli swyddi?

Esboniodd EW y bydd y penodiadau i'r strwythur newydd yn cael eu clustnodi ar gyfer staff presennol yn y lle cyntaf. Nid yw AR yn rhagweld newidiadau diangen i'r strwythur staffio. Y pennaeth a'r corff llywodraethol newydd fydd yn penderfynu yn y pen draw.

C – Fel athro sy'n gyfrifol am bwnc cyfan yn yr ysgol uwchradd, beth fydd yn digwydd os oes rhywun yn yr ysgol gynradd sydd â'r un cyfrifoldebau?

Esboniodd ET y byddai'r corff llywodraethol dros dro a'r pennaeth yn penderfynu ar y strwythur.

C – O ran paratoi gwaith, bydd disgwyl i ni baratoi'r gwaith ar gyfer y pwnc hwnnw i gynnwys disgyblion 3-19 oed neu blant oedran uwchradd yn unig, yn unol â'r drefn flaenorol?

Esboniodd ET y gallai hyn fod yn bosibl, yn dibynnu ar y strwythur y mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn ei benderfynu. Mae strwythurau amrywiol gan yr ysgolion 3-19 eraill yn RhCT. Byddai'r penodiadau i'r strwythur newydd yn seiliedig ar y meini prawf penodi, felly byddai'n rhaid i staff fodloni hyn.

C – A yw'r amserlen ar gyfer cau ac ailagor yn rhy dynn?

Esboniodd ET fod y Cyngor yn rhoi sylw i'r ffaith mai dyma sut mae rhai pobl yn teimlo. Y peth pwysicaf yw bod y strwythur newydd yn cael ei gwblhau i safon uchel ac ni fyddai'r Cyngor eisiau rhuthro'r broses hon. Gellid diwygio amseroedd yn y dyfodol, pe bai angen. Hyd nes y gwneir penderfyniad ar y cynnig, ni ellir penodi'r corff llywodraethol dros dro a'r pennaeth newydd, felly efallai byddai'n synhwyrol gohirio'r dyddiad gweithredu.

C – A yw'r ysgolion 3-19 newydd eraill yn y Rhondda wedi cael mwy o rybudd na'r hyn a gawsom ni am y cynigion hyn?

Esboniodd ET eu bod wedi cael mwy o rybudd o ganlyniad i'r gwaith adeiladu a oedd yn angenrheidiol. Felly, bu'n rhaid ymgynghori ymlaen llaw er mwyn caniatáu amser i waith adeiladu ddigwydd.

C – A fydd yr ysgolion cynradd eraill sy'n gysylltiedig â Garth Olwg dan anfantais?

Esboniodd ET fod y broses i greu ysgolion 3-19 yn y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu'r ffaith fod angen gwneud llawer mwy o waith i sicrhau bod disgyblion o ysgolion eraill cysylltiedig yn trosglwyddo'n ddidrafferth. Mae athrawon o'r ysgolion 3-19 eraill fel Tonypandy, Tonyrefail a Phorth wedi bod yn addysgu dosbarthiadau yn yr ysgolion cynradd ac yn ffurfio perthnasoedd gweithio gyda'r plant cyn iddynt gyrraedd yr ysgol newydd. Bydd angen gwneud rhywbeth tebyg yng Ngarth Olwg i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n rhwydd.

C – Er mwyn cynyddu nifer y disgyblion a dderbynnir yn adran gynradd yr ysgol, a fydd y nifer derbyn yn cynyddu?

Esboniodd JH na fydd y dalgylch ysgol gynradd yn cynyddu er anfantais i ysgolion eraill. Mae datblygiadau tai yn y dalgylch sy'n cynyddu o ran nifer ac yn rhoi pwysau ar yr ysgol. Dim ond plant yn y dalgylch fydd yn cael eu derbyn i'r ysgol.

Nododd ET fod llawer o ddatblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal gyfagos a fydd efallai'n digwydd, neu efallai ddim yn digwydd. Ni allwn gynllunio ar gyfer datblygiadau nad ydym yn gwybod yn bendant y byddant yn digwydd.

C – Os caiff y datblygiadau tai ychwanegol eu hadeiladu a bod angen ysgol gynradd newydd, a fydd yr ysgol honno'n un cyfrwng Cymraeg?

Esboniodd AR fod safleoedd strategol sydd wedi bod â chynlluniau ers blynyddoedd, ond nid oes unrhyw beth wedi digwydd o ganlyniad iddynt. Ar hyn o bryd, ni fyddai'r Cyngor yn agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg arall os gall y disgyblion fynychu Garth Olwg.

Nododd JH y dylid nodi bod angen ysgol newydd ar unrhyw ddatblygiadau tai newydd os bydd niferoedd y disgyblion a ragwelir yn cynyddu y tu hwnt i'r capasiti, ond byddai iaith yr ysgol honno yn cael ei phenderfynu'n llawer hwyrach pan fydd cynlluniau ar y gweill.

C – Pan fydd y corff llywodraethol dros dro a’r pennaeth yn creu’r strwythur newydd, beth fydd yn digwydd os bydd unigolion yn penderfynu peidio â gwneud cais am swydd yn yr ysgol newydd?

Nododd EW mai proses cau ysgol yw hon, felly gall unrhyw un sydd eisiau manteisio ar hyn fel cyfle i ymddeol wneud hynny. Os bydd unrhyw un yn meddwl gwneud hyn, byddai angen iddynt gysylltu ag AR adeg y ceisiadau, a gellir trafod opsiynau.

Esboniodd DP fod yr undebau ar gael i gefnogi staff trwy’r broses i ymgeisio am rolau.

Pwysleisiodd DP bwysigrwydd ymgynghori ac mai dyma’r cyfle i bob un o’r staff fynegi eu pryderon ynglŷn â’r cynnig, a’r raddfa amser ar gyfer ei gynnal.

C – Dywedoch chi fod 300 o leoedd dros ben yn yr ysgol hon ar hyn o bryd. Rydw i’n pryderu ynghylch ychwanegu mwy o ddisgyblion am nad oes gennym neuadd ac mae’r coridorau’n eithriadol o brysur rhwng gwersi fel y mae. A fydd rhywfaint o gyllideb ar gyfer gwaith i adeiladu estyniad?

Esboniodd ET mai cyfrifiad cenedlaethol yw’r cyfrifiad lleoedd dros ben a bod yr ysgol wedi’i hadeiladu i roi lle i lawer mwy o ddisgyblion na’r hyn sydd ganddi ar hyn o bryd, felly, nid oes unrhyw gynlluniau i ymestyn yr adeilad ar hyn o bryd.

Sylw - Mae’r ffreutur yn llawn fel y mae. Os bydd y plant oedran cynradd yn dod i ddefnyddio’r ffreutur neu’r gofod chwarae, ni fydd yn ddiogel. Rydw i’n pryderu y bydd disgyblion oedran cynradd yn cael eu sathru wrth wacáu’r adeilad mewn argyfwng. Nid oes lle ar gyfer parcio ychwanegol ac rydw i’n pryderu am ddiogelwch disgyblion. Hefyd, os oes 300 o ddisgyblion ychwanegol yn defnyddio’r ffreutur a’r neuadd chwaraeon ar ddiwrnodau glawog, rydw i’n pryderu y gallai’r offer addysgu gael ei ddifrodi.

Esboniodd AR fod yr ysgol a’r maes parcio wedi cael eu hadeiladu ar gyfer 1100 o ddisgyblion a bod lle iddynt yno. Mae’n bosibl y gallai’r Cyngor gynorthwyo yn y dyfodol trwy ymestyn mannau gorchuddiedig awyr agored ar gyfer amseroedd distrwythur, fel y maent yn Ysgol Gymunedol Aberdâr.

C – A oedd pryderon am wagle gan yr ysgolion 3-19 eraill?

Esboniodd AR fod pob ysgol 3-19 yn wahanol gan fod yr adnewyddiadau a’r ailfodelu yn amrywio ar bob safle. Gwrandawodd y Cyngor ar bryderon am wagle a dyna sut yr ychwanegwyd y canopïau ar gyfer amseroedd distrwythur.

Nododd DP fod yr ysgolion 3-19 eraill yn wahanol am fod ganddynt gyfleusterau llawer hŷn yr oedd angen eu gwella, yn hytrach nag ansawdd yr adeiladu sydd gan Garth Olwg eisoes. Roedd angen newidiadau ffisegol i’r adeiladau yn yr achosion eraill.

Esboniodd AR fod y Cyngor yn gwrandao ar bryderon yr ysgol a’u bod yn gwella cyfleusterau yng Ngarth Olwg o hyd trwy fuddsoddi yn y cae 3G newydd ar gyfer yr ysgol a’r gymuned.

C – A fydd yr ysgol yn newid enw eto?

Dywedodd ET nad oes unrhyw reswm pam y dylid newid enw'r ysgol, ond mai lle'r corff llywodraethol newydd a'r pennaeth fydd cytuno p'un a fyddant yn dymuno cynnig newidiadau o'r fath.

C – A fydd disgwyl i ni addysgu pynciau nad yw disgyblion ysgol gynradd yn eu dysgu ar hyn o bryd, fel drama, i'r plant cynradd yn yr ysgol newydd?

Esboniodd ET fod hyn yn bosibl, ond mai'r corff llywodraethol newydd fydd yn penderfynu hyn. Gallai fod yn syniad rhagorol addysgu drama i ddisgyblion iau gan fod tystiolaeth fod drama yn magu hyder ac yn cynyddu rhyngweithio cymdeithasol. Gallai fod yn gyfle rhagorol i staff a disgyblion.

C – Pwy fydd ar y corff llywodraethol dros dro?

Esboniodd JH y bydd aelodau o gyrff llywodraethol presennol y ddwy ysgol yn cael eu gwahodd i wneud cais am swydd ar y corff llywodraethol dros dro. Byddai'r Cyngor yn penderfynu pwy sy'n cael ei benodi ar y corff llywodraethol dros dro. Byddai gyrff llywodraethol yr ysgol gyfun a'r ysgol gynradd yn rhedeg ochr yn ochr â'r corff llywodraethol dros dro hefyd.

C – Rydw i'n cytuno bod manteision i gyd-leoli. Rydw i wedi siarad â'r ysgolion cynradd cysylltiedig eraill ac mae'r adborth yn gadarnhaol, ond mae pryderon y bydd y disgyblion oedran cynradd yng Ngarth Olwg yn cael mwy o gyfleoedd na'r rheiny nad ydynt ar y safle.

Mynegodd ET ei bod yn falch fod yr ysgolion cynradd wedi cyfarfod a bod yr adborth cadarnhaol yn galonogol. Esboniodd ET fod angen gwneud mwy o waith pontio. Ers ymgynghori ar yr ysgolion 3-19 eraill, maent wedi cymryd rhan mewn prosiectau cerddoriaeth a phrosiectau gofod sy'n cynnwys pob ysgol gynradd i helpu cynyddu eu partneriaeth weithio cyn iddynt gyrraedd yr ysgol.

Esboniodd AR fod llawer o gyfleoedd i bob un o'r staff a'r disgyblion dan sylw, a bod rhai myfyrwyr cyfun ac athrawon wedi bod yn cynnal clybiau pwnc STEM yn yr ysgolion cynradd er budd addysg a phartneriaeth weithio disgyblion.

Nododd DP fod rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ynglŷn â chreu mwy o gyfleoedd i bawb dan sylw, ac nid tynnu cyfleoedd oddi wrth unrhyw un. Croesewir pob barn am hyn, a byddant yn cael eu cefnogi.

Gofynnodd ET i staff anfon neges e-bost neu ffonio tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ynghylch unrhyw gwestiynau eraill a allai godi yn y dyfodol agos.

Diolchodd ET iddynt am fynychu ac am eu cyfraniadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 4:50pm.

**Nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd
Gymraeg Garth Olwg
Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2017 am 3:45pm
Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor o ran posibilrwydd cau'r ysgol**

Yn Bresennol

Esther Thomas, Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes
Andrea Richards, Pennaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Julie Hadley, Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion
Nicola Goodman, Uwch Swyddog Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Lisa Howell, Uwch Swyddog Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
Ellen Williams, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol
Dean Price, Unsain
21 aelod o staff yr ysgol a'r corff llywodraethol.

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor.

Croesawodd Esther Thomas (ET) bawb i'r cyfarfod ac amlinellu diben y cyfarfod a'r broses, gan gyfeirio hefyd at y wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Esboniodd ET fod cwestiynau wedi cael eu derbyn gan ysgolion eraill (e.e. Evan James) ynglŷn â ph'un a fyddent yn cau, a chadarnhawyd nad oedd hyn yn wir. Dwy ysgol yn unig oedd yn cau, sef Ysgol Gyfun (YG) Garth Olwg ac Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Garth Olwg.

Esboniodd ET fod rhai o swyddogion y Cyngor wedi cyfarfod â'r Cyngor Ysgol y diwrnod blaenorol ac roedd sylwadau ysgrifenedig hefyd wedi dod i law gan ddisgyblion, a byddai'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried hefyd.

Roedd y broses ymgynghori a'r amserlen yn fanwl. Byddai adroddiad yn coladu'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr 2018, a byddai'r Cabinet yn penderfynu p'un a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i fwrw ymlaen â'r cynnig, byddai hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfle i bobl wrthwynebu'r cynlluniau. Byddai'r ymatebion hyn yn cael eu cynnwys mewn adroddiad pellach i'r Cabinet.

Cyfeiriodd ET at dudalen 5 y ddogfen ymgynghori, sy'n amlinellu sut gall pobl wneud sylwadau. Esboniodd ET hefyd y byddai swyddogion y Cyngor yn gwneud nodiadau o'r cyfarfod ac y byddai cwestiynau a ofynnir yn ystod y cyfarfod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet, yn yr un modd â'r adborth gan y disgyblion.

Cyfeiriodd ET at dudalen 6 y ddogfen ymgynghori a phwysleisiodd nad yw'r Cyngor yn cynnig cau o ganlyniad i safonau gwael. Bu safonau uchel iawn yn yr ysgol ers blyneddau lawer. Amlinellodd ET ysgolion pob oed eraill sydd wedi cael eu sefydlu, neu wrthi'n cael eu sefydlu, yn Rhondda Cynon Taf, sef, Llanhari, Porth, Tonypany a Thonyrefail.

Esboniodd ET fod nifer y disgyblion yn YGG Garth Olwg yn cynyddu a bod rhai disgyblion eisoes yn cael eu haddysgu yn adeilad yr ysgol uwchradd, gan fod nifer uchel o leoedd dros ben yn yr ysgol uwchradd.

Esboniodd ET fod y cynigion yn rhoi cyfleoedd gwyb i staff hefyd, er enghraifft datblygiad proffesiynol parhaus.

Nid ymarfer arbed costau oedd hwn; fodd bynnag, mae'r sefyllfa o ran y gyllideb ar gyfer ysgolion yn gwaethygu, a byddai'r cynnig newydd yn golygu y gellir sicrhau arbedion maint, er enghraifft o ran prynu adnoddau.

Amlinellodd ET y cyfeiriadau yn Adroddiad Donaldson i'r cwricwlwm 3-16 a'r cwricwlwm digidol a'r cyfleoedd a gynyddwyd pan nad oedd ysgolion wedi'u cyfyngu i gyfnodau allweddol penodol. Mae Donaldson yn cyfeirio hefyd at wneud ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ganolfannau ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg i'w helpu i addysgu Cymraeg.

Cyfeiriwyd eto at yr amserlen a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori, a rhoddodd ET fanylion am y broses o benodi bwrdd llywodraethwyr dros dro, Pennaeth newydd a strwythur / penodi uwch dîm arweinyddiaeth ar ôl hynny.

Wedyn, agorwyd y cyfarfod ar gyfer cwestiynau.

C – Gan fod lle yn yr ysgol uwchradd i greu mwy o le ar gyfer plant ysgol gynradd, a ystyriwyd newid niferoedd derbyn?

Ateb

Esboniodd JH, pe bai niferoedd ysgol gynradd yn cynyddu ymhellach yn sgil cynnydd yn y galw yn y dalgylch, byddai nifer derbyn yr ysgol gynradd yn cynyddu yn unol â hynny, ond dim ond i fodloni'r galw oddi mewn i'r dalgylch.

Mae rhagolygon disgyblion am bum mlynedd yn ystyried twf yn yr ardal ac mae'r rhagamcaniadau yn dangos 250 o leoedd dros ben o hyd ymhen pum mlynedd.

C – A fydd hyn yn cynnwys ad-drefnu'r adeilad?

A – Dywedodd JH y byddai mân waith adeiladu'n cael ei ystyried pe bai angen.

Sylw – Mynegwyd pryderon ynglŷn â disgyblion iau yn mynd i ysgol uwchradd.

A – Esboniodd ET nad oedd disgwyl y byddai disgyblion iau na Blwyddyn 4 yn mynd i adeilad yr ysgol uwchradd. Byddai mesurau diogelu ar waith. Soniwyd am enghreifftiau o roi strwythurau ysgol ganol ar waith neu'u bod yn cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion pob oed eraill, a phwysleisiwyd mai diogelwch oedd y brif flaenoriaeth.

Ychwanegodd JH fod galw am fwy o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, ac na ellid ymestyn adeilad yr ysgol gynradd. Mae lleoedd dros ben yn yr ysgol uwchradd, a gellid defnyddio'r adeilad yn well i fodloni'r galw am ysgolion cynradd.

C – Pam mae hyn yn golygu cau?

A – Esboniodd ET fod rheolau Llywodraeth Cymru yn pennu hyn ac na fyddai'r disgyblion yn gweld unrhyw wahaniaeth. Hefyd, ni fyddai toriad mewn gwasanaeth ar gyfer staff gan y byddai'r newid yn digwydd dros gyfnod gwyliau'r haf.

C – Y prif ofid yw y bydd ethos yr ysgol gynradd yn cael ei lyncu mewn ysgol fwy. Ai arian yw'r rheswm dros y cynnig hwn?

A – Esboniodd ET nad arian yw'r ffactor yma. O ran yr ethos, byddai yna dîm o reolwyr a strwythur cwbl wahanol. Nid strwythur o bobl o'r ysgol uwchradd yn unig fydd hyn. Byddai'r strwythur yn cael ei bennu gan y Pennaeth newydd a'r corff llywodraethol dros dro.

P – Pryderu bod angen i'r ysgol gynradd gael ei llais ei hun.

A – Esboniodd ET y byddai yna gynrychiolwyr o'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ar y corff llywodraethol ac mai oddi yma y byddai cynnydd yn cael ei wneud. Ni fyddai'r ysgol uwchradd yn 'cymryd drosodd'. Rhoddir enghraifft o'r ysgol pob oed newydd ym Mhorth.

C – Pwy sy'n dewis y corff llywodraethol newydd?

A – Esboniodd JH fod y corff llywodraethol dros dro yn rhedeg ochr yn ochr â'r cyrff llywodraethol presennol. Caiff aelodaeth o'r corff llywodraethol dros dro ei chlustnodi i aelodau o gyrff llywodraethol y ddwy ysgol bresennol, a gwneir penodiadau gan bwyllgor yng Nghwm Clydach a fyddai'n sicrhau (cyhyd ag y bo modd, yn dibynnu ar nifer y ceisiadau sy'n dod i law) ei fod yn cynrychioli'r ddwy ysgol yn gyfartal.

Pwysleisiodd DP fod llais y staff yn bwysig ac mae Unsain yn awyddus i gael barn eu haelodau i sicrhau eu bod yn cyfrannu at y broses. Roedd pryderon ysgolion cynradd sy'n gysylltiedig â chynigion Tonypany a Phorth yn debyg hefyd o ran cael eu lyncu, ond aethpwyd i'r afael â'r rhain. Mewn llawer o ailstrwythuriadau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, mae cynigion yn newid wrth i farnau gael eu hystyried yn ystod y broses ymgynghori. Ychwanegodd ET, pan fydd y strwythur ar waith, fod yr Awdurdod Lleol, trwy ymgynghori â'r Undebau, yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg.

C – A fydd unrhyw staff yn colli eu swyddi?

A – Esboniodd ET na ellid datgan hyn yn sicr; fodd bynnag, yr un nifer o ddisgyblion fyddai yn yr ysgol. Pe bai rhai o'r staff yn dymuno manteisio ar y cyfle i ymddeol, gellid ystyried hyn hefyd.

Bydd staff â phwyntiau rheoli yn cael eu pennu gan y strwythur newydd. Gallai fod cyfleoedd hefyd i bobl ymgeisio am wahanol swyddi wedi i'r strwythur gael ei bennu.

C – A fydd angen i bobl ymgeisio am swyddi?

A – Bydd y broses yn cael ei chytuno gan y corff llywodraethol dros dro a'r uwch dîm arweinyddiaeth. Hyd nes y penderfynir ar y strwythur a'i gymharu â'r sefyllfa bresennol, mae'n anodd dweud; fodd bynnag, mae prosesau sydd wedi hen ennill eu plwyf eisoes ar waith o fewn y Cyngor.

C – Beth am gynorthwyyr ystafell ddosbarth?

A – Maent yn mynd trwy'r un broses.

C – Beth os na fydd unrhyw un yn ymgeisio am swydd y Pennaeth?

A – Dywedodd ET y bydd angen penodi Pennaeth, hyd yn oed os oes angen hysbysebu ymhellach.

C – Sut gellid sicrhau bod y Pennaeth yn gwario'r gyllideb yn gyfartal ar draws yr ysgolion?

A – Dywedodd ET y byddai yna un ysgol a byddai'r gyllideb ar gyfer yr ysgol gyfan. Gosodir y sylfeini yn y blynyddoedd cynradd. Mae Donaldson yn cyfeirio at y gostyngiad pontio. Mae gan yr ysgol gynradd arbenigedd hefyd y gall yr ysgol uwchradd ei ddefnyddio. Nid oes unrhyw un yn mynd i ofyn i staff ysgol gynradd addysgu cyrsiau TGAU, ond bydd mwy o gyfleoedd, er enghraifft, i ddisgyblion ysgol gynradd astudio pynciau gwyddoniaeth, ac ati.

P – Mae'r cyfnod pontio eisoes yn gweithio'n dda rhwng y ddwy ysgol ac mae Blwyddyn 6 eisoes yn defnyddio ystafelloedd gwyddoniaeth a thechnoleg bwyd.

A – Dywedodd ET y gellid gwella ac ymestyn hyn gydag ysgol pob oed.

C – Beth am ysgolion cynradd cysylltiedig eraill?

A – Dywedodd ET fod angen sicrhau y bydd yr ysgolion eraill yn cael y cyfleoedd hyn. Mewn ysgolion pob oed eraill, mae penaethiaid yn gweithio'n agos iawn gyda'r holl ysgolion cynradd yn y clwstwr i sicrhau cyfnod pontio esmwyth.

C – Weithiau, mae 30 o blant a mwy mewn un ystafell ddosbarth. Beth os bydd plant o ddalgylchoedd eraill eisiau dod i mewn?

A – Pwysleisiodd JH y byddai capasiti'r ysgol hon dim ond yn cynyddu i adlewyrchu'r galw ychwanegol oddi mewn i'r dalgylch. Ni fyddai capasiti'r ysgol hon yn cynyddu er anfantais i ysgolion eraill.

Ychwanegodd DP fod ethos Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif o ran moderneiddio a gwella amodau a safonau dysgu yn cael ei gefnogi gan Unsain. Nid yw'r ethos hwn ynglŷn â chynyddu niferoedd y disgyblion heb gymorth addysgu cysylltiedig. Mae gan staff tan 29 Rhagfyr i gyfrannu at y broses, ac mae angen iddynt gyfleu unrhyw bryderon sydd ganddynt am strwythurau posibl hefyd.

Esboniodd ET y deallwyd bod unrhyw newid arfaethedig yn achosi pryder, ond hyd nes cadarnhau'r strwythur, roedd yn anodd gwneud addewidion; fodd bynnag, bydd swydd gan fwyafrif y bobl sydd eisiau bod yn rhan o'r ysgol newydd.

C – Os nad yw'r ysgol newydd yn agor tan fis Medi, beth fydd yn digwydd ynglŷn â chyllidebau?

A – Bydd yr ysgolion presennol yn cael cyllideb pum rhan o ddeuddeg o fis Ebrill tan ddiwedd mis Awst, a bydd yr ysgol newydd yn cael cyllideb saith rhan o ddeuddeg o fis Medi ymlaen.

C – A yw'r graddfeydd amser yn realistig?

A – Cydnabu ET y gallai'r raddfa amser, sef mis Medi 2018, fod yn uchelgeisiol, erbyn sefydlu'r strwythur, ac ati. Roedd hyn yn rhan o'r ymgynghoriad.

P – Wrth edrych ar ffigurau dros y pum mlynedd nesaf, mae gwarged mawr o hyd yn yr ysgol uwchradd.

A – Mae llawer o waith adeiladu a cheisiadau cynllunio posibl yn yr ardal hon, felly gallai hyn effeithio ar y ffigurau.

P – Mae niferoedd yn y meithrin yn cynyddu, ac felly dim ond lleoedd rhan-amser y gellir eu cynnig.

A – Byddai angen i Bennaeth yr ysgol newydd arfaethedig edrych ar ledaenu'r cyllid. Bydd yr un swm o arian yn dod i mewn. Bydd llais cryf ar gyfer yr adran gynradd ar yr uwch dîm arweinyddiaeth yn sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith; fodd bynnag, deallwyd y pryder.

P – Nid yw'r enghreifftiau a roddir yn y ddogfen ymgynghori yn adlewyrchu'r ysgol hon – er enghraifft, cyfeiriadau at ganlyniadau gwael; problemau ynglŷn â phontio nad ydynt yn bodoli. Mae rhieni'n hoffi cael Pennaeth ysgol gynradd sy'n gwybod enwau'r plant.

A – Esboniodd ET na fyddai hyn yn cael ei golli. Byddai arweinydd yn yr uwch dîm arweinyddiaeth yn gofalu am yr elfen gynradd.

P – Mynegwyd pryderon ynghylch enw'r ysgol / gwisg ysgol / amseroedd yr ysgol.

A – Bydd pobl yn cael cyfle i gyfrannu.

Sylw – Nid yw'r graddfeydd amser yn realistig.

C – A fydd Cyfnodau Allweddol yn cael eu categorïddio mewn ysgol fwy o hyd ac a fydd cyllid yn cael ei ledaenu'n gyfartal ar draws y Cyfnodau Allweddol?

A – Esboniodd ET na fydd y broses categorïddio gwyrdd / melyn, ac ati, yn newid. Yn Llanhari, edrychir ar yr ysgol gyfan. Mae cyllid ar gyfer yr ysgol gyfan.

C – A fydd arian yn cael ei rannu'n gyfartal? Rydym yn cael ein hariannu gan wahanol gyrff a grwpiau.

A – Dywedodd ET y gellid cyflwyno cynigion cyllid o hyd; ni fyddai hynny'n newid.

C – A fydd arolygiadau'n cael eu gwneud o'r ysgol gyfan?

A – Dywedodd ET fod Llanhari wedi cael arolygiad yn ddiweddar, a bod amrywiaeth o arolygwyr i adlewyrchu strwythur yr ysgol.

C – A oes model o ysgol gynradd ac ysgol uwchradd sy'n debyg i Garth Olwg? Beth sy'n well ynglŷn ag ef?

A – Llanbedr Pont Steffan, a llawer yn Lloegr. Mae mwy o gyfleoedd ar gael i staff a disgyblion mewn ysgolion o'r fath ac mae ysgolion cynradd yn cael llawer o brofiad mewn pynciau arbenigol.

C – Fel rhiant, mae'r model sydd gennym ar hyn o bryd yn gweithio. Mae'r ysgol uwchradd wedi cael ei chanlyniadau gorau ers tro. Mae fy merch ieuengaf yn bum mlwydd oed a gall neb sicrhau y bydd ei phrofiad yn well. Oherwydd y modelau yn Llanbedr Pont Steffan, ac ati, a ydym ni'n mynd i chwarae â dyfodol ein plant?

A – Bydd safon y staff yn dda o hyd, dim ond y strwythur fydd yn newid.

P – Bydd angen gwaredu rhai staff fel rhan o'r ailstrwythuro, a bydd hyn yn effeithio ar y plant.

C – A allwch chi ddweud wrthym y bydd pethau'n gwella?

A – Gall pawb newid a gall pawb wella.

Dilynwyd hyn â thrafodaeth ynghylch p'un a fydd pethau'n gwella, a mynegwyd pryderon ynghylch chwarae â dyfodol y plant.

P – Pryderu bod hyn yn cael ei wneud i gael gwared ar y lleoedd dros ben yn yr ysgol uwchradd.

A – Dywedodd ET nad yw hyn yn wir. Rhoddwyd enghreifftiau o Adroddiad Donaldson. Cydnabuwyd nad yw rhai meini prawf i ystyried cau ysgolion yn y ddogfen ymgynghori yn berthnasol i'r ddwy ysgol hon.

P – Nid yw pwyntiau ynglŷn ag ysgolion canol yn Lloegr yn berthnasol – nid yw'r system addysg yng Nghymru yn cynnwys arbenigedd trwy Gyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2. Mae gwahanol gwricwla. Mae angen cau'r bwlch.

A – Mae Port Talbot, Baglan newydd gael eu sefydlu hefyd. Nid ydynt wedi cael cyfle i sefydlu'n iawn o ran eu canlyniadau.

C – Faint o athrawon ysgol uwchradd sydd â phrofiad yng Nghyfnod Allweddol 2? Yn realistig, mae'n cymryd blwyddyn i hyfforddi athro mewn gwahanol gyfnodau allweddol. Mae arbenigedd ysgol gynradd yn wahanol iawn i Gyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. Os caiff staff eu tynnu allan o'r ystafell ddosbarth, pryd fydd yr ailstrwythuro hwn a hyfforddiant yn digwydd?

A – Amlinellodd ET fod pob un o'r athrawon yn gwybod sut mae plant yn datblygu trwy'r cyfnodau allweddol amrywiol a bod staff ysgol uwchradd yn gwybod sut mae disgyblion ysgol gynradd yn datblygu.

P – Nid yw'r hyfforddiant hwn o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 yn bodoli eto. Hefyd, mae'n cymryd amser i hysbsebu swyddi. Nid yw sefydlu'r ysgol erbyn mis Medi yn mynd i weithio.

A – Dywedodd ET y byddai'r graddfeydd amser yn cael eu hailystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Dywedodd DP y byddai swydd ddisgrifiadau newydd, ac ati, yn cael eu datblygu fel rhan o'r ailstrwythuro.

Ychwanegodd EW y bydd swyddi yn ei gwneud yn ofynnol fod staff naill ai wedi cael hyfforddiant mewn addysg uwchradd neu addysg gynradd. Yn Llanhari, mae staff cynradd ac uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd.

P – Tyfwyd Llanhari o'r dechrau'n deg.

A – Dywedodd ET fod gan Garth Olwg gysylltiadau cryf eisoes rhwng yr ysgolion, ac y byddai'r cysylltiadau hyn yn cryfhau.

Ychwanegodd DP fod llawer o bwysau ar Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu addysg (er enghraifft, Adroddiad Donaldson). Ni ellid ateb y cwestiynau ar safonau nawr. Mae'n hanfodol fod staff yn bwydo eu safbwyntiau i'r broses ymgynghori, gydag ystadegau a thystiolaeth i gefnogi eu barn.

P – Does gan staff ddim i'w ennill a phopeth i'w golli.

A – Dywedodd EW y byddai cyfleoedd yn cael eu rhoi i staff a oedd yn dymuno mynd. Hefyd, pe bai unrhyw staff yn colli unrhyw gyfrifoldebau addysgu a dysgu neu rolau arwain, byddent yn cael eu diogelu.

Amlinellodd DP y cyfle i bobl allu cael eu pensiwn o 55 oed pe bai rhai pobl yn dymuno mynd.

Cyfeiriodd DP at y prosesau sefydledig a thryloyw sydd gan y Cyngor ar waith. Pwysleisiodd DP mai cynigion yn unig yw'r rhain ar hyn o bryd – gallent newid ac mae mewnbynnau'n allweddol.

C – Beth fydd yn digwydd i staff ar gontractau dros dro os caiff penderfyniad ei ohirio?

A – Dywedodd ET y gellid ymestyn contractau.

C – A gaiff swyddi eu clustnodi?

A – Cadarnhaodd ET y byddent yn cael eu clustnodi.

P – Mae straen ar staff oherwydd ansicrwydd.

A – Dywedodd ET fod pawb yn deall hyn. Gall yr adran Iechyd Galwedigaethol gynorthwyo. Hefyd, mae'r adran Adnoddau Dynol bob amser ar gael ac mae ffyrdd o gyfathrebu bob amser yn agored.

C – A oes potensial i newid capasiti'r ysgol gynradd?

A – Ailadroddodd JH y byddai hyn dim ond yn cael ei wneud i fodloni'r galw yn y dalgylch. Pe bai'r galw yn y dalgylch yn cynyddu, byddai capasiti / y nifer derbyn yn yr ysgol gynradd yn cael eu hadolygu. Ni fyddai unrhyw newid yn anfanteisiol i ysgolion cynradd eraill. Pe bai yna unrhyw ddatblygiadau tai ar raddfa fawr yn y dyfodol, gallai fod angen edrych ar ddarpariaeth ychwanegol y tu allan i'r dalgylch, gan na all yr ysgol gynradd hon barhau i dyfu. Mae un cais cynllunio am dai yn y dalgylch newydd gael ei wrthod.

Diolchodd ET iddynt am fynychu ac am eu cyfraniadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 5:10pm

**Sylwadau a wnaed yn y Noson Agored, a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2007
(gadawyd ar y 'bwrdd sgriblo').**

Yr un wisg ysgol i bawb?

A ydych chi'n mynd i sicrhau'r un systemau pontio ar gyfer ysgolion eraill yn y clwstwr?

Gallai effaith hyn ar staff effeithio ar safonau'r addysg.

Pa asesiadau a wnaed o ysgolion 3 – 19 eraill, yn RhCT, a thu hwnt?

Darpariaeth gyfartal ar gyfer pob ysgol sy'n bwydo

ADBORTH AR HOLIADUR AR GYFER Y CYNNIG I GREU YSGOL 3 – 19 AR GAMPWS GARTH OLWG

Cytuno â'r Cynnig	Cwblhawyd gan	Sylwadau	Safbwyntiau Ychwanegol
Ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Mae'n gwneud synnwyr – yn hoffi'r syniad fod disgyblion yn gallu rhannu'r holl gyfleusterau	Tybio na fydd angen 2 Bennaeth ar yr ysgol pob oed ddiwygiedig, gellid ailfuddsoddi adnoddau mewn staff addysgu/staff cymorth addysgu
Ydw	Llywodraethwr Ysgol	Caewch y Ganolfan Dysgu Gydol Oes, nid yw cyrsiau cystal ag yr oeddent yn arfer bod	Mae'n well cael yr ysgol gyfan gyda'i gilydd
Ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Gall y trosglwyddo rhwydd o 3 i 19 ond gynnig addysg well	Fy unig bryder yw effaith y traffig ar drigolion cyfagos pan fydd rhieni'n casglu plant
Ydw	Rhiant, YG Garth Olwg	Yn cefnogi ehangu YGG Garth Olwg, mae hyn yn rhoi dewis o addysg ddwyieithog i rieni ar gyfer eu plant. Gobeithio y bydd unrhyw arbedion ariannol o ddarbodion maint yn cael eu hailfuddsoddi yn yr ysgol	Fy unig bryder yw bod yr ysgol yn cael ei hymgorffori yn y gymuned leol a dylai gadw ei henw. Mae newid enw hefyd yn destun pryder parthed cost gwisg ysgol newydd.
Ddim yn siwr	Rhiant	Yn pryderu am yr effaith bosibl ar ysgolion cynradd lleol eraill sydd yng nghlwtwr Garth Olwg. A yw'r safleoedd mawr hyn yn ddewis arall gwell yn lle ysgolion cynradd llai o faint sydd eisoes yn llwyddiannus?	Mae'r cynlluniau newydd yn ymddangos yn iawn. Rydw i'n pryderu am y cyfnod nesaf yn effeithio ar ysgolion cynradd eraill sydd wedi cael eu hysbysu, y byddaf efallai yn rhoi sylwadau arno yn ddiweddarach.
Ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Ar yr amod y cedwir at fanylion arfaethedig, yn enwedig diogelwch y plant ifanc sy'n cymysgu â myfyrwyr hŷn, a bod pob un o'r plant yn teimlo'n gyfforddus.	
Nac ydw	Rhiant, YG Garth Olwg a Chastellau	Mae YGG Garth Olwg yn dylanwadu'n fawr ar bob un o'r ysgolion sy'n bwydo YG Garth Olwg, dydw i ddim yn teimlo bod creu ysgol uwch er budd yr ysgolion eraill.	Sut bydd hyn yn effeithio ar y dalgylch yn y dyfodol, a hunaniaeth yr ysgolion eraill sy'n ei bwydo? A yw'n gam cyntaf tuag at gau ysgolion?
Nac ydw	Rhiant	Mae'r wybodaeth a ddarperir yn ymwneud â chwynion parthed ymddygiad disgyblion yn YG Garth Olwg, nid â'r cynnig ei hun.	Anfonwyd copi o'r holiadur at y Pennaeth iddo ymchwilio yn unol â'r protocol cywir.

Nac ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Neges e-bost hir yn gwrthwynebu ar sail llawer o brif faterion. Yn gyffredinol, diffyg gwybodaeth am fanylion penodol am reoli'r ysgol newydd, a'r disgwyliad y bydd plant ifanc iawn 5 oed yn rhannu cyfleusterau â myfyrwyr 19 oed	Dywedwyd mai cynnig yn unig yw hwn ac nad oes unrhyw benderfyniadau gwirioneddol wedi cael eu gwneud eto. Hefyd, awgrymwyd y bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn cael eu rhoi yn yr adeilad Uwchradd
Nac ydw	Ni ddarparwyd	Mae YGG Garth Olwg yn ysgol lwyddiannus ac mae'r cynigion a'r rhesymau dros yr ysgol newydd yn ymddangos yn wan. Byddai'r ysgol gynradd yn colli pennaeth a'u polisi drws agored. Mae plant cynradd yn rhy ifanc i gymysgu â phlant cyfun heblaw blwyddyn 6.	Pryderu ynglŷn â cholli staff o'r ysgol gynradd os caiff yr ysgol ei chymryd drosodd, a bydd llai o effaith ar yr ysgol gyfun. Mae'n ymddangos bod mwy o fanteision i'r ysgol gyfun.
Ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Mae'r campws eisoes yn ei le, mae'n gwneud perffaith synnwyr	Mae'n bwysig fy mod i'n teimlo felly i sicrhau nad yw addysg gynradd yn cael ei heffeithio mewn unrhyw ffordd
Nac ydw	Rhiant, YGG Castellau	Bydd y cynnig yn rhoi ysgolion eraill yn y clwstwr dan anfantais. Bydd gan Ysgol Gynradd Garth Olwg fynediad gwell at gyfleusterau, gan roi mantais annheg iddynt. Os nad eir i'r afael â hyn, byddaf yn ystyried rhoi fy 3 phlentyn mewn ysgol cyfrwng Saesneg	Hoffwn weld cynlluniau clir ar sut bydd yr holl ysgolion clwstwr yn cael eu cefnogi, gan gynnwys costau cludiant, fel bod pob un o'r disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal. Gellid troi safle cynradd Garth Olwg yn ysgol ganol glwstwr blwyddyn 5/6
Nac ydw	Rhiant	Ymarfer torri costau ar draul y plant. Dydw i ddim yn cytuno â'r newidiadau gan na fyddant yn gwella dysgu. Gallai toriadau i staff ostwng safonau cyffredinol yr ysgol	Mae safonau presennol yn dda yn ôl Estyn, felly dydw i ddim yn teimlo bod unrhyw arwydd fod angen newid.

		Yn siomedig nad oes cyfeiriad yn y ddogfen ymgynghori at y modd yr oedd y cynigion yn gysylltiedig â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae llawer o'r manteision sy'n gysylltiedig â chydleoli eisoes yn cael eu cyflawni. Gallai cynigion greu anghydraddoldeb a bod yn niweidiol i'r ysgolion cynradd cysylltiedig eraill. Ni ddylai hyn fod yn fater i'r corff llywodraethol dros dro, dylai'r ALI roi cyfarwyddyd a sicrwydd ar y mater hwn. Aneglurder ynghylch sut caiff lleoedd disgyblion eu cyfrifo a sut mae lleoedd dros ben yn y sector uwchradd yn cymharu â lleoedd cynradd. Rhaid ystyried lles ac iechyd a diogelwch disgyblion yn y defnydd arfaethedig o leoedd dros ben. Pryderu ynglŷn â'r ansicrwydd sy'n deillio o aflonyddwch diangen. Oni bai y gellir mynegi manteision addysgol sylweddol i bob disgybl yn y clwstwr, mae'n ymddangos y gallai anfanteision wrthbwysio manteision prin y cynnig hwn.	Pryderu y gallai'r cynnig hwn ar wahân greu annhegwch mewn darpariaeth addysg ar draws clwstwr Garth Olwg ac mai rôl yr awdurdod lleol yw mynegi hyn. Mae cyfle i gyrrff llywodraethol ddod at ei gilydd i ddisgrifio gweledigaeth ar gyfer nodau, polisïau a llywodraethu ar y cyd. Dylai'r awdurdod lleol ddarparu'r cymorth a'r arbenigedd angenrheidiol i hwyluso hyn. Mae cyfleoedd gwirioneddol yn sgil y model hwn, ac o ohirio'r newid tan fis Medi 2019, gellid rhoi amser sydd ei angen yn fawr i weithio trwy'r model hwn, a'i wireddu.
Nac ydw	Rhiant YGG Garth Olwg (darparwyd enw)	Dydw i ddim yn teimlo bod unrhyw fudd i'r ysgol fabanod/iau	Oherwydd ansicrwydd o ran swyddi, cynnwrf, a fydd yr ysgol fabanod/iau dan anfantais a mwy o adnoddau'n cael eu rhoi i'r ysgol uwchradd?
Ddim yn siwr	Rhieni, YGG Garth Olwg (darparwyd enwau)	Mae gennym nifer o bryderon am strwythur yr ysgol newydd a'r parhad ar gyfer y plant hynny sydd eisoes yn mynychu	Nid yw hi'n glir beth fydd rôl y pennaeth ar gyfer yr uned gynradd. Ar gyfer plant oedran cynradd, mae'r Pennaeth yn unigolyn hanfodol
Nac ydw	Rhiant	Yn poeni am yr effaith ar ethos Cymreig cryf yr ysgol. Mae'n annheg ar ysgolion cynradd eraill yn y clwstwr. Yn colli'r agosatrwydd rhwng staff a rhieni. Gofidiau am les plant, gan y bydd disgyblion o B4 ymlaen yn cael eu haddysgu yn yr adeilad uwchradd. Pwy fydd yn rhedeg yr ysgol gynradd o ddydd i ddydd?	Dim pwynt mewn cau 2 ysgol lwyddiannus. Dydw i ddim eisiau i'm plant gael eu haddysg mewn un ysgol rhwng 3 - 19. Mae trosglwyddo yn gyfnod pwysig yn eu bywydau. Beth fydd y blaenoriaethau gwario?

Nac ydw	Rhiant a llywodraethwr	Bydd yn cael effaith negyddol ar ethos Cymreig yr ysgol gynradd. Siaredir Cymraeg ar y coridorau a'r maes chwarae, yn wahanol i'r ysgol gyfun. Mae'n annheg ar yr ysgolion cynradd eraill yn y clwstwr, bydd gan eu disgyblion Blwyddyn 6 gyfnodau trosglwyddo gwahanol	Does dim angen cau 2 ysgol lwyddiannus sydd â safonau uchel. Bydd hyn yn cael ei beryglu trwy newid system lwyddiannus. Bydd yn golygu colli'r berthynas agos rhwng rhieni a staff yn yr ysgol gynradd. Pryderon parthed lles, ni ddylai plant mor ifanc â B4 gael eu haddysg yn yr ysgol gyfun. Dydw i ddim eisiau i'm plant fod mewn un ysgol o 3 - 19, mae trosglwyddo yn un o brofiadau pwysig bywyd. Gallai ansicrwydd am swyddi staff achosi i staff da adael. Ni roddwyd enghraifft o ysgol lwyddiannus gyda dalgylch nac ardal leol sy'n debyg i Garth Olwg.
Nac ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Bydd cyfathrebu â rhieni a staff a gwneud penderfyniadau yn llawer anos heb fod pennaeth yn bresennol. Mae gan ysgolion cynradd ac uwchradd anghenion gwahanol iawn. Bydd newid y system bresennol yn niweidiol i addysg fy mhiant	
Nac ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Rydw i'n credu bod y model presennol yn well. Rydw i'n cydnabod pwysigrwydd cael pennaeth ar y safle. Mae gan y pennaeth rôl hanfodol ac mae ei bresenoldeb/phresenoldeb yn hanfodol, mae pennaeth cynradd dynodedig yn hanfodol.	
Nac ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Bydd creu 7 lle ychwanegol yn y sector cynradd erbyn 2022 yn achosi llawer o aflonyddwch. Heb fwy o arian ar gyfer yr ysgolion cynradd clwstwr eraill, bydd eu disgyblion dan anfantais.	
Nac ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Ar ôl mynychu'r cyfarfod, roedd yn amlwg nad oedd staff yn gallu ateb cwestiynau sylfaenol na rhoi enghreifftiau/tystiolaeth o ysgolion Cymraeg eraill lle mae hyn wedi digwydd – ble mae'r ystadegau?	Pa ddarpariaethau a ystyriwyd ar gyfer diogelwch ac amddiffyn plant rhwng 3 ac 18 oed yn symud gyda'i gilydd? A fydd yna ardal chwarae ddynodedig ar gyfer plant 3 - 11 oed?

Nac ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Mae'r ysgol gynradd eisoes wedi mynd y tu hwnt i'w chapasiti, gan fod B6 eisoes wedi'i lleoli yn yr ysgol gyfun. Os cynyddir y nifer a dderbynnir yn y sector cynradd, i ble fyddent yn mynd? Byddai angen i ddisgyblion iau gael eu haddysgu yn yr ysgol gyfun hefyd, a byddant yn cael eu hamlygu i'r amgylchedd hwn o oedran rhy ifanc. Nid oes darpariaeth ar gyfer disgyblion 11 – 18 ar hyn o bryd ar gyfer gweithgareddau hamdden mewn tywydd gwael, bydd y broblem hon dim ond yn cynyddu os yw disgyblion iau ar y safle ac os bydd niferoedd uwchradd yn cynyddu.	Ni fydd cyllid yn cael ei glustnodi ac nid oes sicrwydd y bydd yr ysgol gynradd yn cael yr un gyfran o arian a neilltuir ar hyn o bryd. Yn sgil pwysau ar ganlyniadau yn CA4 a CA5, gellid rhoi blaenoriaeth i wario arian yn uwch i fyny'r ysgol. Heb symudiad diffiniedig i ddisgyblion o'r sector cynradd i'r uwchradd ym Mlwyddyn 6, ni fydd plant yn cael cyfle i feithrin gwydnwch a delio â newid.
Nac ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Mae'r ysgol gynradd eisoes wedi mynd y tu hwnt i'w chapasiti, gan fod B6 eisoes wedi'i lleoli yn yr ysgol gyfun. Os cynyddir y nifer a dderbynnir yn y sector cynradd, i ble fyddent yn mynd? Byddai angen i ddisgyblion iau gael eu haddysgu yn yr ysgol gyfun hefyd, a byddant yn cael eu hamlygu i'r amgylchedd hwn o oedran rhy ifanc. Nid oes darpariaeth ar gyfer disgyblion 11 – 18 ar hyn o bryd ar gyfer gweithgareddau hamdden mewn tywydd gwael, bydd y broblem hon dim ond yn cynyddu os yw disgyblion iau ar y safle ac os bydd niferoedd uwchradd yn cynyddu.	Ni fydd cyllid yn cael ei glustnodi ac nid oes sicrwydd y bydd yr ysgol gynradd yn cael yr un gyfran o arian a neilltuir ar hyn o bryd. Yn sgil pwysau ar ganlyniadau yn CA4 a CA5, gellid rhoi blaenoriaeth i wario arian yn uwch i fyny'r ysgol. Heb symudiad diffiniedig i ddisgyblion o'r sector cynradd i'r uwchradd ym Mlwyddyn 6, ni fydd plant yn cael cyfle i feithrin gwydnwch a delio â newid. Dydw i ddim yn credu bod rheswm dilys dros newid o'r strwythur ysgol presennol.
Nac ydw	Rhiant	Dydw i ddim yn cytuno y dylai plant bach gymysgu â phlant mawr. Bydd rhai ohonynt yn oedolion hefyd	
Nac ydw	Rhiant (darparwyd enw)	Rydw i o'r farn fod yr ysgol gynradd yn cael ei rhedeg yn eithriadol o effeithlon ar hyn o bryd, ac yn credu y byddai'r uno yn niweidiol i addysg fy mhlentyn.	